



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# **Adolygiad Barnwrol – cynigion i ddiwygio ymhellach: ymateb y Llywodraeth**

Chwefror 2014





## **Adolygiad Barnwrol – cynigion i ddiwygio ymhellach: ymateb y Llywodraeth**

Cyflwynwyd i'r Senedd  
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder  
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2014

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfonwch neges e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Os ydym wedi nodi bod unrhyw ddeunydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn [admin.justice@justice.gsi.gov.uk](mailto:admin.justice@justice.gsi.gov.uk)

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/judicial-review>

ISBN: 9780101881128

Argraffwyd yn y DU gan The Stationery Office Cyfyngedig  
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi  
ID 2621120 02/14

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

## Cynnwys

Rhagair Gweinidogol	3
Crynodeb	5
Atodiad A: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	22
Atodiad B: Talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol	46
Atodiad C: Rhestr o ymatebwyr	55

---



## Rhagair Gweinidogol



Rwyf o blaid diogelu'r adolygiad barnwrol fel rhwystr i gamau anghyfreithlon gan weithredwyr, ond rwyf yr un mor glir na ddylai gael ei gamddefnyddio fel ffordd o arafu twf. Yn fy marn i, mae'r adolygiad barnwrol wedi ymestyn ymhell y tu hwnt i'r cysyniad gwreiddiol ohono, ac yn rhy aml bydd achosion yn cael eu dwyn fel arf ymgyrchu, neu ddim ond er mwyn llesteirio cynigion dilys. Mae hynny'n beth drwg i'r economi a'r trethdalwr, a hefyd i ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system gyfiawnder.

Yn yr ymgynghoriad diweddar ar 'Adolygiad Barnwrol: cynigion i ddiwygio ymhellach' eglurwyd pryderon y Llywodraeth ynghylch y twf yn nifer yr adolygiadau barnwrol, y cymhellion sydd gan rai sy'n eu dwyn, ac am eu heffaith. Cafwyd 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar ôl eu hystyried yn ofalus, rwyf yn sicr bod dadl gryf o blaid diwygio a hefyd y dylai'r diwygio fynd ymlaen yn ddi-oed.

Roedd rhai o'r newidiadau yr wyf yn bwriadu gweithredu arnynt wedi'u nodi yn Natganiad yr Hydref a'r Cynllun Seilwaith Cenedlaethol, sef creu Llys Cynllunio i leihau oedi mewn prosiectau allweddol, gan ganiatáu i achosion cenedlaethol eu harwyddocâd gyrraedd y Goruchaf Lys yn gynt, a diwygio'r ffordd y mae'r llysoedd yn delio ag adolygiadau barnwrol sy'n cael eu dwyn ar faterion technegol bach.

Yn ogystal â hyn, rwyf yn cymryd camau i gyflwyno diwygiadau cynhwysfawr i'r mesurau ariannol sy'n ymwneud â'r adolygiad barnwrol. Rwyf am sicrhau y bydd hawllywyr – a'r rheini sy'n cefnogi ac yn ariannu hawliadau ond sydd weithiau'n aros o'r golwg yn y cefndir – yn ysgwyddo risg ariannol fwy cymesur pan fyddant yn penderfynu dwyn achos. Yn benodol, rwyf yn sefydlu fframwaith cadarn i bennu pryd y gellir gwneud Gorchmynion Gwarchod Costau (mewn achosion heblaw rhai amgylcheddol). Mae hyn yn gyson â'm barn mai dim ond hawliadau y mae'r llysoedd yn tybio eu bod yn deilwng ac sy'n wirioneddol er lles y cyhoedd a ddylai gael eu gwarchod fel hyn ac, os rhoddir Gorchmynion Gwarchod Costau, bod rhaid i'r trethdalwr gael ei warchod hefyd rhag costau gormodol.

Ymgynghorais ar gynnig i dalu darparwyr cymorth cyfreithiol am waith ar geisio caniatâd dim ond os rhoddir caniatâd, er mwyn sicrhau na fydd arian y trethdalwr bellach yn cael ei roi ar gyfer achosion gwan. Rwyf yn bwriadu gweithredu'r diwygiad hwn, gan wneud rhai addasiadau yn y meini prawf disgresiynol.

Er mwyn ategu ein camau i symleiddio achosion cynllunio, byddaf hefyd yn cyflwyno dull o hidlo ceisiadau am ganiatâd i apelio o dan adran 288 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn chwynnu'r hawliadau gwan yn gynharach. Er hynny, nid wyf yn bwriadu tynnu'r achosion hynny (na'r rheini o dan adran 289 o'r un Ddeddf) yn gyfan gwbl o gwmpas y ddarpariaeth o gymorth cyfreithiol.

Mae'n bosibl na fydd rhai o'r mesurau hyn yn boblogaidd ymysg y rheini sy'n cael mantais o'r sefyllfa bresennol, ond rwyf yn hyderus y byddant yn hybu twf economaidd er mwyn dyfodol ein gwlad, yn hyrwyddo tegwch â'r trethdalwr, ac yn diogelu mynediad at gyfiawnder i bawb.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Chris Grayling', with a long horizontal flourish extending to the right.

**Chris Grayling**  
**Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**



## Crynodeb

### Cyflwyniad a chyd-destun

1. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar *Adolygiad Barnwrol: Cynigion i ddiwygio ymhellach*, y ceir ymateb y Llywodraeth iddo yn y ddogfen hon, rhwng 6 Medi 2013 a 1 Tachwedd 2013. Yn yr ymgynghoriad, edrychwyd ar gynigion mewn chwe maes a oedd yn ceisio ysgafnhau'r baich o gynnal adolygiad barnwrol. Yn benodol, roedd y Llywodraeth yn awyddus i gyflymu achosion cynllunio a mynd i'r afael â'r camddefnydd o'r adolygiad barnwrol gan y rheini sy'n ceisio denu cyhoedduswydd neu arafu'r gweithredu ar benderfyniadau a oedd wedi'u gwneud yn briodol ac yn gyfreithlon. Mae angen mawr am ddiwygio yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gan fod y materion y mae'r Llywodraeth yn ceisio delio â nhw yn atal twf.
2. Yn yr ymgynghoriad diweddar, ceisiwyd adeiladu ar sail diwygiadau i'r adolygiad barnwrol a oedd wedi'u gweithredu ar ôl ymgynghoriad cynharach.<sup>1</sup> Y diwygiadau hynny oedd:
  - rhoi llai o amser i ddod ag adolygiad barnwrol mewn achosion cynllunio a chaffael, sef chwe wythnos mewn achosion cynllunio a 30 o ddiwrnodau mewn achosion caffael, yn lle tri mis;
  - dileu'r hawl i gael gwrandawriad llafar i ailystyried penderfyniad i wrthod caniatâd i ddod ag adolygiad barnwrol os yw barnwr wedi asesu bod yr achos yn hollol annheilwng;
  - codi ffi newydd am wrandawriad llafar i adnewyddu caniatâd, sef £215 ar y dechrau.
3. Cyflwynwyd y cyntaf a'r ail o'r diwygiadau hyn ar 1 Gorffennaf 2013, a'r trydydd ar 7 Hydref. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymgynghori ar wahân yn ddiweddar ar gamau i adennill yr holl gostau am ffioedd mewn adolygiadau barnwrol.
4. Ochr yn ochr â'r diwygiadau hyn, o 1 Tachwedd 2013 roedd y rhan fwyaf o'r adolygiadau barnwrol ar fewnfudo a lloches wedi'u trosglwyddo o'r Llys Gweinyddol i'r Uwch Dribiwnlys. Rhagwelir y bydd llwyth gwaith y Llys Gweinyddol o ran adolygiadau barnwrol yn llai o lawer o ganlyniad i hyn ac y bydd yn fwy effeithlon. Bydd angen monitro effaith y trosglwyddo ar yr Uwch Dribiwnlys yn ystod 2014.
5. Roedd y diwygiadau a gyflawnwyd y llynedd yn gam pwysig cyntaf ond, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, mae'r Llywodraeth yn credu bod angen gwneud rhagor.
6. Mae'r Llywodraeth yn glir hefyd nad yw ei diwygiadau'n amharu ar y rhan hanfodol y mae'r adolygiad barnwrol yn ei chwarae drwy ffrwyno'r Weithrediaeth.

---

<sup>1</sup> Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar *Adolygiad Barnwrol: Cynigion i ddiwygio* rhwng Rhagfyr 2012 ac Ionawr 2013. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth yn Ebrill 2013.

## Pam y mae angen diwygio pellach

7. Mae ystadegau diweddaraf y llysoedd a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2013 yn dangos bod nifer yr achosion sydd wedi'u dwyn am adolygiad barnwrol wedi cynyddu'n sylweddol a bod y nifer, erbyn 2012, bron tair gwaith gymaint ag yn 2000 (ar ôl codi o 4,300 yn 2000 i tua 12,600 yn 2012). O'r achosion a gafodd eu dwyn yn 2012, ystyriwyd caniatáu tua 7,500 ohonynt a rhoddwyd caniatâd ar gyfer 1,400 (gan gynnwys rhai ar ôl gwrandawriad llafar i adnewyddu caniatâd).<sup>2</sup> Parhau i gynyddu a wnaeth nifer yr achosion am adolygiad barnwrol yn 2013. Yn naw mis cyntaf 2013, cafwyd tua 12,800 o achosion am adolygiad barnwrol, sy'n fwy na'r cyfanswm o 12,600 ar gyfer 2012 ar ei hyd.<sup>3</sup>
8. Cafodd tua 16,000 o achosion eu dwyn yn ystod y 12 mis rhwng 1 Hydref 2012 a 30 Medi 2013. Roedd tua 6,700 (42%) o'r 16,000 o achosion hyn wedi cyrraedd y cam caniatâd neu wrandawriad llafar am adnewyddu.<sup>4</sup> O'r achosion a gyrhaeddodd y camau hynny, cafwyd bod tua un rhan o dair ohonynt yn hollol annheilwng.<sup>5</sup>
9. Cafwyd 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar (sydd wedi'u crynhoi yn Atodiadau A a B) gan gynnwys rhai oddi wrth ymarferwyr cyfreithiol a'u cyrff proffesiynol (e.e. Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar), elusennau a chyrrff anllywodraethol, a nifer ohonynt yn gwrthwynebu llawer o'r cynigion. Ond roedd nifer o blaid diwygio, yn enwedig ymysg busnesau ac awdurdodau cyhoeddus a oedd yn cytuno bod angen mwy o welliannau i'r system bresennol. Heblaw yng nghyswllt cynigion penodol (gweler paragraffau 14 ac 16 isod), mae'r Llywodraeth yn credu bod dadl gryf o blaid diwygio. Mae'n egluro ei rhesymau'n fanwl o baragraff 17 ymlaen, lle y mae pob un o'r cynigion gwreiddiol yn cael ei ystyried yn ei dro ar sail y pwyntiau sydd wedi'u gwneud gan ymatebwyr.
10. Roedd ymatebwyr wedi tynnu sylw at nifer o achosion lle'r oedd adolygiadau barnwrol o benderfyniadau cynllunio wedi arafu prosiectau datblygu – gan greu mwy o gostau i ddatblygwyr a gohirio'r manteision economaidd, gan gynnwys rhai o greu swyddi newydd. Er enghraifft, cafwyd oedi o 65 o wythnosau cyn ehangu maes awyr Southend ar ôl rhoi caniatâd cynllunio er bod caniatâd wedi'i wrthod ar bob cam yn yr apêl am adolygiad barnwrol, gan gynnwys gwrandawriad llafar yn y Llys Apêl. Awgrymodd ymatebwyr mai cost yr oedi hwn i'r economi leol oedd £100 miliwn y flwyddyn.
11. Ym marn y Llywodraeth, nid oes gan y rheini sy'n dod ag achos am adolygiad barnwrol fuddiant cymesur bob amser yn risg ariannol yr ymgyfreitha. Roedd un enghraifft a roddwyd yn ymwneud â phenderfyniad cynllunio lle'r oedd grŵp o breswylwyr lleol wedi ffurfio cwmni cyfyngedig a ddaeth ag achos am adolygiad barnwrol. Ffurfiwyd y cwmni gan nifer bach o gyfarwyddwyr a oedd wedi talu £1 yr un i goffrau'r cwmni. Drwy wneud hyn, yn ôl dadl yr ymatebydd, roedd y cyfarwyddwyr yn bwriadu osgoi unrhyw ganlyniadau anfanteisiol o ran costau pe na byddai'r her gyfreithiol yn llwyddiannus. Byddai'r gost bosibl i'r trethdalwr, ar ffurf costau cyfreithiol y diffynnydd y buasai modd eu hadennill fel arall oddi wrth yr hawlydd a gollodd, yn gallu bod yn sylweddol. Dywedodd yr ymatebydd hefyd fod preswylwyr lleol eraill

---

<sup>2</sup> Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys yr achosion a dynnwyd yn ôl cyn gwneud y penderfyniad ar ganiatáu.

<sup>3</sup> [www.gov.uk/government/publications/court-statistics-quarterly-july-to-september-2013](http://www.gov.uk/government/publications/court-statistics-quarterly-july-to-september-2013)

<sup>4</sup> Ar adeg cyrchu'r data ym mis Tachwedd 2013.

<sup>5</sup> [www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/267508/cs-q3-jul-sep-2013.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/267508/cs-q3-jul-sep-2013.pdf)

wedi arswydo at y ffaith bod grŵp bach yn gallu atal datblygiad a oedd wedi'i gymeradwyo'n ddemocrataidd ar fenter ariannol mor fach iddyn nhw eu hunain.

12. Mae'r Llywodraeth wedi achub ar y cyfle hwn i ailedrych ar y defnydd o gymorth cyfreithiol mewn achosion adolygiad barnwrol ac yn credu ei bod yn briodol cyfeirio'r adnoddau cyfyngedig ar gyfer cymorth cyfreithiol at yr achosion adolygiad barnwrol hynny lle y mae'r angen mwyaf.

## Y ffordd ymlaen

13. Ar ôl pwysu a mesur, mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad bod angen diwygio i ddelio â'r problemau yr oedd wedi'u nodi ac i helpu i sicrhau bod yr adolygiad barnwrol yn cael ei ddefnyddio'n briodol yn y dyfodol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys pecyn o fesurau, y mae rhai ohonynt wedi'u cyhoeddi'n barod, sy'n ganlyniad i ystyriaeth fanwl i'r nifer mawr o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar 4 Rhagfyr 2013 yn y Cynllun Seilwaith Cenedlaethol a thrannoeth yn Natganiad Hydref y Canghellor, eglurwyd bod y Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen â'r diwygiadau canlynol:
  - Llys Cynllunio arbenigol o fewn yr Uchel Lys a fydd yn delio ag adolygiadau barnwrol ac apelau statudol sy'n ymwneud â Phrosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd a materion cynllunio eraill;
  - prawf trothwy is ar gyfer penderfynu na fyddai diffyg mewn gweithdrefn wedi gwneud gwahaniaeth yn y canlyniad gwreiddiol. Bydd y Llywodraeth hefyd yn sefydlu gweithdrefn fel y gellir ystyried hyn yn gynharach yn yr achos yn y cam caniatâd;
  - caniatáu i apelau 'neidio' yn syth i'r Goruchaf Lys mewn mwy o amgylchiadau drwy ehangu'r meini prawf ar gyfer apelau o'r fath, dileu'r gofyniad am gydsyniad gan y ddau barti, a chaniatáu dod ag apelau 'neidio' o fwy o lysoedd a thribiwnlysoedd.
14. Bydd y Llywodraeth hefyd yn bwrw ymlaen â set o ddiwygiadau i agweddau ariannol penodol ar adolygiadau barnwrol, er mwyn cymell hawllywyr i beidio â dwyn achosion gwan neu barhau ag achosion o'r fath. Felly, mae'r ddogfen hon yn egluro'r camau a gymerir mewn cysylltiad â chymorth cyfreithiol ar gyfer achosion adolygiad barnwrol, gwrandawiaidau caniatâd llafar, Gorchmynion Gwarchod Costau, Gorchmynion Costau a Wastraffwyd, costau partïon sy'n ymyrryd ac ariannu gan drydydd parti. Mae'r Llywodraeth yn credu bod y newidiadau hyn yn ffordd fwy effeithiol o leihau nifer yr adolygiadau barnwrol sy'n cael eu dwyn neu eu parhau ar sail achos annheilwng na newid y prawf cymhwyster.
15. Mae'r Mesur Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd yn darparu ar gyfer diwygiadau mewn cysylltiad â diffygion gweithdrefnol, gwahanol elfennau ariannol y pecyn, ac apelau 'neidio'. Bydd elfennau eraill yn y pecyn diwygiadau cyffredinol yn cael eu rhoi ar waith drwy is-ddeddfwriaeth.
16. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau yng nghwmpas cymorth cyfreithiol ar gyfer heriau cynllunio o dan adrannau 288 a 289 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, nac yng ngallu awdurdodau lleol i herio prosiectau seilwaith.

## Y Cynigion – Cynllunio

### Llys Cynllunio

17. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig sefydlu **Siambwr Gynllunio** newydd yn yr Uwch Dribiwnlys, gan adeiladu ar sail y drefn Cynllunio Carlam sydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar yn y Llys Gweinyddol. Nodwyd manylion y drefn Cynllunio Carlam a'r terfynau amser diwygiedig ym mharagraffau 40–44 o'r ddogfen ymgynghori. Cyflwynwyd y drefn Cynllunio Carlam ym mis Gorffennaf 2013 i leihau'r oedi wrth herio penderfyniadau pwysig ynghylch seilwaith a chynllunio. O dan y drefn Cynllunio Carlam bydd barnwyr cynllunio arbenigol yn gwrando achosion yn unol â therfynau amser gweinyddol sydd wedi'u pennu gan Lywydd Adran Mainc y Frenhines. Yr arwyddion cynnar yw bod y drefn Cynllunio Carlam yn gweithio'n dda (gweler isod).
18. Gofynnodd y Llywodraeth am sylwadau ynghylch datblygu'r dull carlam ymhellach er mwyn creu Siambwr Gynllunio newydd yn y system tribiwnlysoedd. Ychydig llai nag un rhan o dair o'r ymatebwyr a fynegodd farn am y drefn Cynllunio Carlam a oedd yn erbyn sefydlu Siambwr Gynllunio newydd. Roedd tua hanner y rheini a wnaeth sylwadau am gynllunio (aelodau o'r farnwriaeth a chynrychiolwyr cyfreithiol gan mwyaf) am gael amser i asesu effeithiau cam cyntaf y diwygiadau i adolygiadau barnwrol ac effaith y drefn Cynllunio Carlam cyn cefnogi diwygio pellach. Yn benodol, roedd yr uwch farnwriaeth o blaid cadw'r drefn Cynllunio Carlam ond ei datblygu'n **Llys Cynllunio** o fewn yr Uchel Lys, gyda'r amcan hirdymor o symleiddio'r dull cyffredinol o drafod achosion sy'n ymwneud â chynllunio a'r amgylchedd.
19. Mae'n galonogol nodi bod rhai ymatebwyr wedi sylwi bod y drefn Cynllunio Carlam yn cael effaith eisoes. Mae'n ymddangos bod y data cyntaf yr ydym wedi'u cael gan y Llys Gweinyddol yn cadarnhau hyn gan fod achosion a oedd wedi'u caniatáu yn ystod Hydref 2013 wedi cymryd tua saith wythnos i gyrraedd y pwynt hwnnw ar ôl eu dwyn, o'i gymharu â 21 o wythnosau ar gyfer yr un mis yn 2012.<sup>6</sup> Mae'r Llywodraeth yn dymuno adeiladu ar sail y dechrau addawol hwn.
20. Cafwyd croeso i'r cynnig i sefydlu Siambwr Gynllunio gan ddatblygwyr a diwydiant, er ei bod yn glir eu bod yn croesawu unrhyw gynigion a fyddai'n cyflymu'r broses o wrando achosion sy'n ymwneud â chynllunio a phrosiectau seilwaith mawr, yn enwedig drwy ddefnyddio barnwyr arbenigol, a'r gwaith o ddatblygu rheolau gweithdrefnol newydd a therfynau amser penodedig.
21. Ar ôl ystyried y dadleuon gan y ddwy ochr yn ofalus, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu adeiladu ar sail y drefn Cynllunio Carlam drwy sefydlu Llys Cynllunio yn yr Uchel Lys, yn unol ag awgrym yr uwch farnwriaeth, gyda rhestr ar wahân o dan oruchwyliaeth barnwr arbenigol. Byddwn hefyd yn gwahodd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Sifil i gynnwys terfynau amser ar gyfer hwyluso achosion yn y Rheolau Gweithdrefnau Sifil.

---

<sup>6</sup> Rhaid trin y ffigurau'n ofalus gan eu bod yn ymwneud â nifer bach iawn o achosion dros gyfnod byr, ac mae'n bosibl bod gwahaniaethau yn yr amseroedd aros yn adlewyrchu gwahaniaethau yn nodweddiadol yr achosion yn hytrach na gwelliannau mewn prosesau llys. Hefyd, gan nad yw'r drefn Cynllunio Carlam ond wedi bod yn weithredol ers mis Gorffennaf, mae'r data yn ymwneud â rhan gyntaf proses y llys yn unig (o adeg gwneud yr hawliad hyd at y penderfyniad ar ganiatâd). Er hynny, mae'n ymddangos bod y drefn Cynllunio Carlam yn sicrhau gwelliannau yn y camau cyn caniatáu.

22. Mae'r Llywodraeth wedi'i bodloni y bydd y ffaith bod y Llys Cynllunio yn parhau i wrando achosion yn yr Uchel Lys yn sicrhau'r gwelliannau yr oedd am eu ceisio drwy greu Siambr Gynllunio yn yr Uwch Dribiwnlys. Mae'n debygol y bydd y Llys Cynllunio yn dechrau ar ei waith yn gyflymach heb greu'r ansicrwydd ynghylch datblygu rheolau newydd a gweithdrefn rheoli achosion a fyddai wedi codi wrth greu Siambr Gynllunio yn yr Uwch Dribiwnlys.

*Prawf hidlo caniatâd ar gyfer heriau o dan adran 288 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

23. Adran 288 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n darparu'r unig fecanwaith y mae person tramgwyddedig yn gallu ei ddefnyddio i herio rhai gorchymynion, penderfyniadau a chyfarwyddiadau sy'n ymwneud â chynllunio. Gellir cyflwyno her yn yr Uchel Lys ar y sail bod y gorchymyn neu weithred dan sylw y tu hwnt i'r pŵer a roddwyd gan y Ddeddf, neu na chydymffurfiwyd â'r gofynion gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'r gorchymyn neu weithred.
24. Gan ddilyn awgrymiadau gan y farnwriaeth, ymgynghorodd y Llywodraeth ynghylch a ddylid cynnwys prawf hidlo caniatâd ar gyfer heriau o'r fath. Byddai hyn yn golygu bod rhaid cael caniatâd gan y llys i gyflwyno her, yn yr un ffordd â'r dull ar gyfer adolygiadau barnwrol, a byddai'n cyfyngu ar y graddau y mae achosion gwan yn gallu symud ymlaen.
25. O blith y rheini a ymatebodd, roedd y mwyafrif o blaid hyn, gan ddadlau y byddai'n helpu i ysgafnhau'r baich o ganlyniad i heriau gwan. Er bod rhai ymatebwyr wedi cyfeirio at y perygl o oedi pellach o ganlyniad i gynnwys cam newydd, mae'r Llywodraeth wedi'i hargyhoeddi y bydd y cam hwn o gymorth drwy roi'r gallu i ddelio'n gyflymach â heriau gwan. Wedyn gellir cyfeirio adnoddau prin yn fwy effeithiol at achosion cryfach, fel y gellir eu hystyried yn gynt hefyd nag a wneir ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn sicrhau cysondeb â'r cam caniatâd cyfatebol ar gyfer adolygiadau barnwrol sy'n ymwneud â chynllunio.

*Awdurdodau lleol sy'n herio prosiectau seilwaith*

26. Y system gynllunio seilwaith mawr yw'r broses ar gyfer sicrhau caniatâd chynllunio a mathau eraill o gydsyniad ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, ynni, gwastraff, dŵr gwastraff a dŵr. Mae'r system gynllunio seilwaith mawr, sydd yn Neddf Cynllunio 2008, wedi bod ar waith ers Mawrth 2010. Yr adolygiad barnwrol yw'r cyfle olaf i roi prawf ar gydymffurfiaeth â'r broses gyfreithiol. Mae Deddf 2008 yn darparu ar gyfer terfyn amser o 6 wythnos i wneud cais am adolygiad barnwrol.
27. Gofynnodd y Llywodraeth am sylwadau ynghylch a yw'n briodol bod awdurdodau lleol, sy'n ymatebwyr statudol o dan y system gynllunio seilwaith mawr, yn parhau i fod yn gymwys i herio penderfyniadau ar ganiatáu. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn fanwl, mae'r Llywodraeth wedi cael ei hargyhoeddi gan ddadleuon ymatebwyr a nododd, fel yr oedd y ddogfen ymgynghori wedi dangos, nad oedd awdurdodau lleol wedi cyflwyno unrhyw heriau i Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd ers i'r system gynllunio seilwaith mawr ddod i rym. Roedd nifer ohonynt yn dadlau hefyd, pe byddai awdurdod lleol yn cyflwyno her, mai mater i'r bobl y mae'r awdurdod yn eu cynrychioli fydd ffurfio barn ynghylch a oedd y penderfyniad yn gywir. Nododd yr uwch farnwriaeth fod awdurdodau lleol wedi'u cyfyngu eisoes drwy statud o ran a fyddant a sut y byddant yn gallu cyflwyno her; a bod sail dda fel arfer i'r adolygiadau barnwrol sy'n cael eu dwyn gan awdurdodau lleol.

28. Mae'r Llywodraeth yn derbyn ei bod yn bosibl, er na chafwyd unrhyw heriau i Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd gan awdurdodau lleol, y bydd dadleuon o hyd ynghylch diogelu'r system yn Neddf 2008 rhag heriau ym mlynnyddoedd y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw wedi'i hargyhoeddi mai llesol fyddai gwneud hynny. Mae datblygwyr wedi rhoi gwybod bod y system yn Neddf 2008 yn gweithio'n dda, a bod hynny'n ganlyniad i raddau helaeth i'r ffaith bod datblygwyr a phartïon eraill sydd â buddiant, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn cymryd rhan yn adeiladol ar ddechrau'r broses. Gellid drysu'r cydbwysedd manwl hwn drwy wneud y newid hwn. At hynny, lle y mae hawliad yn cael ei wneud gan awdurdod lleol, gallai hwnnw fod yn lle nifer o hawliadau llai manwl gan unigolion a grwpiau yr effeithiwyd arnynt a allai achosi oedi. Bydd sefydlu Llys Cynllunio ar wahân yn gymorth hefyd i symleiddio taith adolygiadau barnwrol sy'n ymwneud â chynllunio drwy'r llysoedd. Am y rhesymau hyn nid yw'r Llywodraeth o blaid gwneud y newid hwn.

*Cymorth ariannol ar gyfer herio penderfyniadau cynllunio o dan adrannau 288 a 289 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

29. Ar hyn o bryd, nid yw cymorth cyfreithiol ar gael fel arfer ar gyfer achosion cynllunio neu heriau statudol o dan adrannau 288 a 289 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 heblaw lle y mae unigolyn mewn perygl uniongyrchol o golli ei gartref o ganlyniad i'r achos dan sylw. Yn y ddogfen ymgynghori, gofynnodd y Llywodraeth a ddylai cymorth cyfreithiol fod ar gael o hyd (o fewn y cwmpas) mewn sefyllfaoedd o'r fath, neu a ddylai fod ar gael dim ond lle y byddai methu â darparu cymorth ariannol yn arwain at dorri neu berygl o dorri hawliau'r ceisydd am gymorth cyfreithiol o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop neu gyfraith yr UE.
30. Mae data'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn awgrymu mai dim ond dwy her a gafwyd o dan adrannau 288 a 289 lle y rhoddwyd cymorth cyfreithiol yn y tair blynedd diwethaf, a bod y cymorth cyfreithiol hwn wedi'i roi yn y ddau achos cyn i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 ddod i rym. Mae hyn yn faes lle'r oedd rhai ymatebwyr wedi mynegi pryder neilltuol ynghylch cydraddoldeb.
31. Ar ôl ystyried y dadleuon a fynegwyd, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â cheisio dileu cymorth cyfreithiol ar gyfer heriau o'r fath ar hyn o bryd ond mae'n bwriadu cyflwyno prawf hidlo caniatâd ar gyfer apelau statudol o dan adran 288 (i gyd-fynd â'r prawf hidlo sydd eisoes yn bod ar gyfer apelau o dan adran 289). Bydd hyn yn rhoi mecanwaith mwy effeithiol i atal achosion gwan rhag mynd ymlaen at wrandawriad llawn yn y dyfodol.

## **Y Cynigion – Cymhwyster**

32. Yn y ddogfen ymgynghori, aseswyd a oedd dadl o blaid diwygio'r cymhwyster i ddod ag achos am adolygiad barnwrol. Mae'r prawf cymhwyster presennol, sydd wedi'i bennu yn adran 31 o Ddeddf Uwchlysoedd 1981, yn ei gwneud yn ofynnol bod yr hawlydd yn dangos bod ganddo fuddiant digonol yn y mater y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori fod y llysoedd wedi bod yn llai cyfyngol dros amser wrth gymhwyso'r prawf hwn, fel bod grwpiau ac unigolion sydd heb fuddiant uniongyrchol bellach yn gallu dod ag achos am adolygiad barnwrol yn amlach er lles y cyhoedd. Roedd y Llywodraeth yn pryderu bod y dull eang hwn o weithredu yn agored i'w gamddefnyddio gan y rheini sydd am ddefnyddio adolygiadau barnwrol i ddenu cyhoeddusrwydd neu rwystro prosesau penderfynu priodol mewn ffordd arall. Felly, yn y ddogfen ymgynghori, gofynnwyd am sylwadau ynghylch a ddylid newid y prawf presennol.

33. Gwrthwynebwyd yr awgrym hwn gan y rhan fwyaf o ymatebwyr, yn enwedig gan gyfreithwyr a'u grwpiau cynrychiadol a chyrrff anllywodraethol, a oedd yn dadlau y dylai fod yn bosibl o hyd i hawliadau gael eu gwneud gan grwpiau neu sefydliadau sydd heb fuddiant uniongyrchol yn y canlyniad. Heriwyd y ddadl o blaid newid ar y sail mai ychydig o hawliadau o'r fath a oedd yn cael eu gwneud (fel canran o gyfanswm y ceisiadau) a bod ffigurau'r Llywodraeth yn dangos bod yr achosion hynny'n tueddu i fod yn fwy llwyddiannus ar gyfartaledd. Dadleuai nifer o ymatebwyr y byddai'r newid yn effeithio ar hawliadau teilwng sy'n dal y weithrediaeth yn atebol lle'r oedd wedi gweithredu'n anghyfreithlon ac y byddai felly'n amddiffyn y weithrediaeth rhag her. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau hefyd y byddai prawf buddiant uniongyrchol yn newid pwrpas yr adolygiad barnwrol, gan symud ei bwyslais oddi wrth herio camwri cyhoeddus tuag at ddiogelu hawliau preifat. Tynnwyd sylw hefyd at y perygl o gael cyfnod o ansicrwydd a chost wrth ymgyfreitha ynghylch prawf buddiant uniongyrchol yn y llysoedd ac roedd ymatebwyr yn amau a fyddai prawf newydd o'r fath yn effeithiol.
34. Dadleuwyd hefyd y byddai mynnu bod buddiant uniongyrchol gan yr hawlydd yn gallu bod yn wrthgynhyrchiol drwy beri bod nifer o unigolion yn cyflwyno her yn hytrach na bod un her yn cael ei chyflwyno, o dan y prawf presennol, gan grŵp arbenigol, a fyddai'n canolbwyntio ar y materion allweddol.
35. Mae'r Llywodraeth yn glir bod y dull presennol o gynnal adolygiadau barnwrol yn agored i'w gamddefnyddio, ond nid yw'n credu mai diwygio'r prawf cymhwyster yw'r ffordd orau o gyfyngu'r cyfle i wneud drwg. Yn hytrach, mae'r Llywodraeth yn credu mai ffordd well o gyflawni ei nod polisi yw drwy becyn effeithiol o ddiwygiadau ariannol i gyfyngu'r nifer o hawliadau gwan sy'n cael eu gwneud a thrwy ddiwygio'r ffordd y mae'r llys yn delio ag adolygiadau barnwrol ar sail diffygion gweithdrefnol.

### **Y Cynigion – Diffygion Gweithdrefnol**

36. Ar hyn o bryd, caiff y llys wrthod rhoi caniatâd neu rwymedi terfynol ar y sail ei bod yn anorfod na fyddai'r methiant y cwynwyd amdano wedi gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad gwreiddiol. Mae'r gair 'anorfod' yn gosod y trothwy'n uchel, ac anaml y bydd y llys yn ystyried dadleuon 'dim gwahaniaeth' yn y cam caniatâd. Yn y ddogfen ymgynghori, gofynnwyd am sylwadau ynghylch newid y dull presennol o weithredu fel y bydd y llys yn gwrthod caniatâd neu rwymedi mewn achos lle'r oedd y methiant honedig yn 'annhebygol iawn' o fod wedi gwneud gwahaniaeth – hynny yw, gostwng y trothwy.
37. Roedd rhai ymatebwyr, yn enwedig ymarferwyr cyfreithiol a'u grwpiau cynrychiadol, wedi mynegi pryderon am y cynigion hyn. Nodwyd bod perygl o weld 'rihysio' holl ddadleuon yr achos yn y cam caniatâd gan y byddai'r newid yn galw am ystyried y ffeithiau'n fwy trwyadl ac y gallai hyn arwain at ystyried yr achos cyfan yn y gwrandawriad am ganiatâd, gan beri mwy o oedi. Fodd bynnag, prin oedd y rhai a gynigiodd awgrymiadau ynghylch sut i liniaru'r perygl hwnnw. Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y byddai diwygio'r prawf yn arwain at beidio â gwyntyllu neu wneud iawn am anghyfreithlondeb sylweddol lle'r oedd hawliadau dilys wedi'u gwneud ac y byddai'n cymell awdurdodau cyhoeddus i ymddwyn yn anghyfreithlon, gan effeithio o bosibl ar ymddiriedaeth hawlwr yn effeithiolrwydd yr adolygiad barnwrol. Roedd pryderon hefyd y byddai'r llys yn mynd y tu hwnt i gwmpas presennol yr adolygiad barnwrol, sy'n ymwneud â chyfreithlondeb y weithdrefn, gan ystyried rhinweddau'r penderfyniad gwreiddiol.

38. Ym marn y Llywodraeth, mewn achos lle y mae'r diffyg y cwynwyd amdano'n annhebygol iawn o fod wedi gwneud gwahaniaeth, bydd unrhyw rwymedi y mae'r llys yn ei roi hefyd yn annhebygol o wneud gwahaniaeth sylweddol i'r canlyniad. Felly, safbwynt y Llywodraeth yw nad yw adolygiadau barnwrol sydd wedi'u seilio ar fethiant sy'n annhebygol iawn o fod wedi gwneud gwahaniaeth yn ffordd dda o ddefnyddio amser ac arian y llys. Mae'r Llywodraeth wedi'i bodloni bod modd delio â'r perygl o rihysio holl ddadleuon yr achos yn y gwrandawriad am ganiatâd, a bod y prawf newydd yn un rhesymol, o wybod y bydd y llysoedd yn gallu rhoi caniatâd neu rwymedi o hyd lle y mae mwy nag amheuaeth fach ynghylch a fuasai gwahaniaeth o ganlyniad i'r diffyg.

### **Y Cynigion – Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Adolygiad Barnwrol**

39. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol bod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi sylw dyladwy i dair elfen y ddyletswydd wrth gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.<sup>7</sup> Os credir bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd gyfreithiol, gall hyn fod yn sail i ddod ag adolygiad barnwrol. Yn y ddogfen ymgynghori gofynnwyd am sylwadau ynghylch a oedd unrhyw fecanweithiau eraill ar gyfer datrys anghydfod ynghylch y ddyletswydd a fyddai'n gyflymach ac yn fwy costeffeithiol na'r adolygiad barnwrol. Mae hyn yn dilyn argymhelliad i ystyried y mater hwn gan y Grŵp Llywio Annibynnol a oedd yn gyfrifol am adolygu gweithrediad y ddyletswydd.<sup>8</sup>
40. Mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth, sy'n gyfrifol am strategaeth a deddfwriaeth ar gydraddoldeb ar draws Llywodraeth, yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad (gweler y crynodeb yn Atodiad A) fel rhan o'i gwaith ar weithredu argymhellion y Grŵp Llywio Annibynnol.

### **Y Cynigion – Cymhellion Ariannol**

41. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno pecyn o ddiwygiadau llym i ddarpariaethau ariannol sy'n ymwneud ag adolygiadau barnwrol er mwyn rhoi cymhelliad i beidio â gwneud hawliadau gwan neu barhau â hawliadau o'r fath. Mae'n iawn bod y rheini sy'n dod â hawliadau gwan yn wynebu risg ariannol o faint mwy priodol gan fod y camau y maent yn eu cymryd yn rhoi pwysau ar lysoedd sy'n cael eu hariannu gan y trethdalwr ac yn creu'r posibilrwydd o oedi mewn prosiectau a pholisïau pwysig.

#### *Cymorth Cyfreithiol – Talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol*

42. Pwrpas y cynnig yw sicrhau bod yr adnoddau cyfyngedig ar gyfer cymorth cyfreithiol yn cael eu targedu'n briodol ar yr achosion adolygiad barnwrol hynny lle y mae'r angen mwyaf amdanynt, gan fod hynny'n angenrheidiol os yw'r system cymorth cyfreithiol i hawlio ymddiriedaeth a hygyrdd gan y cyhoedd. Cynnig y Llywodraeth oedd bod darparwyr i gael eu talu am waith ar gais am ganiatâd (gan gynnwys cais

---

<sup>7</sup> Deddf Cydraddoldeb 2010; y tair elfen yw: dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlid a mathau eraill o ymddygiad sydd wedi'u gwahardd o dan y Ddeddf; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt); a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol. Y nodweddion gwarchoddedig yw hil; rhyw; anabled; oed; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd neu gred; beichiogrwydd a mamolaeth; ac ailbennu rhywedd.

<sup>8</sup> [www.gov.uk/government/publications/the-independent-steering-groups-report-of-the-public-sector-equality-duty-psed-review-and-government-response](http://www.gov.uk/government/publications/the-independent-steering-groups-report-of-the-public-sector-equality-duty-psed-review-and-government-response)



am ailystyried y cais mewn gwrandawriad, y gwrandawriad llafar neu apêl am ganiatâd i'r Llys Apêl) dim ond os rhoddir caniatâd. Yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad ar *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol*, roedd y Llywodraeth hefyd yn cynnig caniatáu i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol dalu darparwyr mewn rhai achosion sy'n dod i ben cyn y penderfyniad ar ganiatâd. Pwrpas y diwygiad hwn i'r cynnig gwreiddiol oedd rhoi'r gallu i dalu mewn achosion teilwng sy'n cael eu setlo cyn cael caniatâd a lle nad oes modd adennill costau oddi wrth y diffynnydd.

43. Roedd rhai ymatebwyr wedi cydnabod bod y Llywodraeth wedi addasu'r cynnig gwreiddiol drwy ganiatáu i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol dalu darparwyr mewn rhai achosion sy'n dod i ben cyn penderfyniad ar ganiatâd, gan geisio ymateb i rai o'r pryderon a fynegwyd ynghylch y cynnig gwreiddiol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn parhau i wrthwynebu'r cynnig hwn gan ddadlau, yn benodol, y byddai'r ansicrwydd a risg ariannol i ddarparwyr yn effeithio ar nifer y darparwyr sy'n barod i gyflawni gwaith cyfraith gyhoeddus a'r mathau o achosion y byddent yn barod i ymgymryd â nhw yn y dyfodol.
44. Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu hefyd ynghylch y mecanwaith talu disgresiynol arfaethedig, gan ddadlau na fyddai'n delio â'r risg y byddent yn ei hwynebu wrth wneud cais ac y byddai'n faich ychwanegol i ddarparwyr wrth wneud eu cais i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Awgrymwyd bod y rhestr gynhwysfawr arfaethedig o feini prawf yn rhy gyfyng, ac nad oedd yn ystyried ffactorau a allai wanhau'r achos ar ôl gwneud cais, ei bod yn rhoi gormod o bwys ar ymddygiad yr hawlydd yn yr achos (yn hytrach nag ymddygiad y diffynnydd) ac y byddai'n caniatáu i gyrff cyhoeddus sy'n ddiffynyddion mewn achos gael dylanwadu ar daliad y darparwr drwy ddadlau nad oedd cysylltiad rhwng y rhesymau dros setlo a'r hawliad.
45. Mae'r Llywodraeth yn credu o hyd na ddylai'r trethdalwr dalu am y nifer sylweddol o achosion gwan sy'n cael eu dwyn am adolygiad barnwrol nad ydynt yn cael eu caniatáu gan y llys. Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol bod risg ariannol y cais am ganiatâd yn cael ei dwyn gan y darparwr a bod y prawf caniatâd yn cael ei ddefnyddio fel trothwy ar gyfer talu. O dan y cynigion, rhoddir tâl o hyd am achosion sy'n mynd ymhellach na'r cam caniatâd, beth bynnag fydd y canlyniad yn y pen draw, a bydd darparwyr yn parhau i gael eu talu am waith cyn y cam caniatâd, pa un a roddir caniatâd i barhau â'r achos neu beidio. Felly mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi'r cynnig hwn ar waith.
46. Wedi dweud hynny, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ddau ymgynghoriad, bydd y Llywodraeth yn galluogi'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i dalu mewn achosion teilwng sy'n dod i ben cyn penderfyniad ar ganiatâd ac, ar ôl ystyried y sylwadau sydd wedi'u gwneud, bydd yn addasu'r meini prawf – neu ffactorau – a fydd mewn deddfwriaeth ac y bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn eu cymhwyso. Bydd yr addasiadau arfaethedig, sydd wedi'u disgrifio'n llawn yn Atodiad B, yn lleihau'r risg y bydd disgwyl i ddarparwyr ei hysgwyddo i ryw raddau a byddant yn rhoi'r gallu i barhau i dalu darparwyr mewn achosion a oedd yn deilwng wrth eu dwyn ond sy'n dod i ben cyn y penderfyniad ar ganiatâd.

#### *Costau mewn gwrandawriadau caniatâd llafar*

47. Os yw rhywun am wneud cais am adolygiad barnwrol, rhaid iddo gael caniatâd gan y llys i wneud hynny. Os gwrthodir rhoi'r caniatâd hwnnw ar sail ei gais papur, gall wneud cais am ailystyried y penderfyniad mewn gwrandawriad llafar. Ar hyn o bryd, os na roddir caniatâd i'r hawlydd yn y gwrandawriad hwnnw, dim ond mewn

amgylchiadau eithriadol y bydd costau'r diffynnydd llwyddiannus am gael ei gynrychioli yn cael eu dyfarnu yn erbyn yr hawlydd aflwyddiannus. Yn y ddogfen ymgynghori, gofynnwyd am sylwadau ynghylch cyflwyno'r egwyddor y bydd modd adennill y costau mewn gwrandawriad caniatâd llafar fel arfer ac y dylai fod yn bosibl gorchymyn i'r hawlydd aflwyddiannus dalu costau rhesymol y diffynnydd am amddiffyn yn erbyn y cais aflwyddiannus. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu diwygio'r rheolau hyn fel y bydd dyfarniadau o'r fath yn arferol, ond bydd hyn yn amodol o hyd ar ddisgresiwn cyffredinol y llys ynghylch costau.

48. Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr ynghylch y cynnig, gan gynnwys y pryder bod perygl y bydd holl ddadleuon yr achos yn cael eu 'rihysio' mewn gwrandawriadau i adnewyddu cais cyn unrhyw wrandawriad terfynol. Mae'r Llywodraeth yn derbyn nad yw'n ddymunol bod gwrandawriadau am ganiatâd yn cael eu defnyddio i gyflwyno holl ddadleuon yr achos, ond mae'n credu bod modd i'r llys reoli hyn, fel y mae'n gwneud yn awr, drwy ei bwerau rheoli achosion. Dadleuwyd hefyd y byddai'r cynnig yn ei gwneud yn rhy ddrud i hawlwyd wneud hawliad oherwydd y posibilrwydd o orfod talu costau uwch os na fydd yn llwyddo. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei bod yn bwysig na fydd achosion teilwng yn cael eu gollwng dim ond oherwydd cost ymgyfreitha, ond mae'n credu y dylai hawlwyd ystyried y costau posibl sy'n gysylltiedig yn fwy gofalus wrth benderfynu a fyddant yn adnewyddu cais sydd wedi'i wrthod eisoes gan y llys.
49. Dadleuai rhai ymatebwyr mai pwrpas y gwrandawriad caniatâd llafar yw rhoi cyfle i'r hawlydd brofi ei achos ac nad yw'n ofynnol i'r diffynnydd fod yn bresennol felly, os bydd y diffynnydd yn dewis bod yn bresennol, dylai gwrdd â'i gostau ei hun. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, mae'r Llywodraeth yn credu bod cyfiawnhad dros y mesur; er ei bod yn wir mai dewis y diffynnydd yw a fydd yn cael ei gynrychioli mewn gwrandawriad caniatâd llafar (oni bai fod y llys wedi gorchymyn iddo fod yn bresennol), mae hefyd yn wir mai dewis yr hawlydd yw gofyn am wrandawriad caniatâd llafar ar ôl gwrthod ei gais papur.
50. Os bydd y gwrandawriad caniatâd llafar yn llwyddiannus, ni fydd costau'n cael eu dyfarnu yn erbyn parti bryd hynny a phenderfynir ar hynny ar ddiwedd y gwrandawriad terfynol. Bydd disgresiwn cyffredinol gan y llysoedd o hyd yn y maes hwn, i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wneud. Bydd y Llywodraeth yn gwahodd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Sifil i gynnwys yn y Rheolau Gweithdrefnau Sifil yr egwyddor y bydd modd adennill y costau mewn gwrandawriad caniatâd llafar fel arfer.

#### *Gorchmynion Costau a Wastraffwyd*

51. Os bydd llys yn gwneud Gorchmynion Costau a Wastraffwyd, effaith hynny yw gwneud y cynrychiolydd cyfreithiol yn bersonol atebol am rai o'r costau ymgyfreitha y mae wedi'u hachosi'n ddiangen drwy ei ymddygiad amhriodol, afresymol neu esgeulus, ac y mae'n afresymol disgwyl i'r ymgyfreithiwr eu talu. Anaml y bydd Gorchmynion Costau a Wastraffwyd yn cael eu gwneud, fodd bynnag – dim ond 50 ohonynt a gafodd eu gwneud rhwng Mawrth 2011 a Mehefin 2013 – ac roedd y Llywodraeth wedi holi yn yr ymgynghoriad a ellid eu defnyddio'n fwy effeithiol.
52. Teimlai nifer mawr o ymatebwyr fod y prawf presennol ar gyfer Gorchmynion Costau a Wastraffwyd yn briodol ac nad oedd dadl ddigonol o blaid newid. Roedd rhai'n pryderu bod yr awgrym am gael prawf ehangach yn golygu nad oedd cydnabyddiaeth mai penderfyniad y cleient yn y pen draw yw a fydd yn dod ag achos neu beidio. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch yr agweddau ymarferol ar benderfynu gwneud

Gorchymyn Costau a Wastraffwyd, yn enwedig ynghylch cyngor sy'n dod o dan fraint broffesiynol gyfreithiol na fyddai'r llys yn gallu ei ystyried heb gael cydsyniad y cleient.

53. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn fodlon mai'r ffordd orau o wneud Gorchymynion Costau a Wastraffwyd yn fwy effeithiol, yn hytrach na diwygio'r prawf presennol, yw cryfhau'r goblygiadau i'r cynrychiolydd cyfreithiol pan gaiff gorchymyn ei wneud. Mewn nifer o sefyllfaoedd lle y gwneir Gorchymynion Costau a Wastraffwyd, bydd dadl ynghylch esgeuluster proffesiynol ac, fel y mae nifer o ymatebwyr wedi nodi, dylai cyrff rheoleiddio proffesiynol fod â rhan mewn sefyllfaoedd o'r fath. Dylai hyn fod o gymorth i gymell cynrychiolwyr cyfreithiol i fod yn fwy gofalus wrth ystyried eu penderfyniadau ynghylch delio ag achosion.
54. Er bod Gorchymynion Costau a Wastraffwyd yn fater difrifol, nid oes unrhyw ganlyniadau rheoliadol neu gontractiol ffurfiol ar hyn o bryd i gynrychiolydd cyfreithiol sydd wedi gweithredu'n amhriodol, yn afresymol neu'n esgeulus. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu deddfu i roi'r llysoedd o dan ddyletswydd i ystyried hysbysu'r corff rheoleiddio perthnasol ac, os yw'n briodol, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, pan wneir Gorchymynion Costau a Wastraffwyd. Bydd y ddyletswydd hon yn gymwys i bob math o achos sifil, nid adolygiadau barnwrol yn unig.

*Gorchymynion Gwarchod Costau (achosion heblaw rhai amgylcheddol<sup>9</sup>)*

55. Mae Gorchymynion Gwarchod Costau yn gwarchod yr hawlydd aflwyddiannus – ac weithiau'r diffynnydd – rhag rhai neu'r cwbl o gostau'r ochr arall. Datblygwyd Gorchymynion Gwarchod Costau gan y llysoedd a'r bwriad yn wreiddiol oedd y byddent yn eithriadol (er nad yw hyn yn ofyniad penodol bellach) ac yn peri bod yr hawlydd yn cael ei warchod rhag rhai neu'r cwbl o ganlyniadau ariannol ei benderfyniadau. Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd am sylwadau ynghylch dileu'r gallu i wneud Gorchymynion Gwarchod Costau lle y mae buddiant unigol neu breifat; ynghylch addasu'r egwyddorion ar gyfer pennu pryd y ceir gwneud gorchymyn o'r fath; ac ynghylch a ddylid rhagdybio y bydd croes-gap (sy'n pennu uchafswm ar lefel uwch na chap yr hawlydd fel arfer) ar atebolrwydd y diffynnydd aflwyddiannus i gwrdd â chostau'r hawlydd.
56. Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr ynghylch y cynigion hyn, gan gynnwys y cynnig i ddileu'r gallu i wneud Gorchymynion Gwarchod Costau lle'r oedd buddiant preifat, ar y sail bod yr adolygiad barnwrol yn ymwneud ag unioni camwri cyhoeddus ac y byddai'r diwygiad arfaethedig yn golygu na fyddai cyrff anllywodraethol a grwpiau tebyg yn gallu cyflwyno her mewn achosion er lles y cyhoedd gan fod y costau posibl yn rhy uchel. Dadleuwyd bod y llysoedd wedi arfer â chydbwysio hawliau preifat a chyhoeddus. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at y nifer bach o Gorchymynion Gwarchod Costau sy'n cael eu gwneud mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â'r amgylchedd. Roedd gwahaniaeth barn am y croes-gap ar atebolrwydd y diffynnydd, gan fod rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai gosod capiau ar symiau penodedig yn rhy gyfyngol.

---

<sup>9</sup> Mae system wahanol ar waith ar gyfer gwarchod costau mewn adolygiadau barnwrol sy'n ymwneud â materion amgylcheddol sydd o fewn cwrmpas Confensiwn Aarhus a Chyfarwydddeb Cyfranogiad y Cyhoedd, ac mae wedi'i phennu yn y Rheolau Gweithdrefnau Sifil. Yn yr achosion hyn, uchafswm costau'r hawlydd fydd £5,000 os yw'r hawlydd yn unigolyn a £10,000 mewn achosion eraill, a'r uchafswm ar gyfer y diffynnydd yw £35,000.

57. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd rhai Gorchmynion Gwarchod Costau yn sicr o gael eu gwneud mewn achosion lle y mae buddiant pwysig gan y cyhoedd mewn datrys mater, felly nid yw'n bwriadu dileu'n llwyr y gallu i wneud Gorchmynion Gwarchod Costau mewn achosion nad ydynt yn ymwneud â'r amgylchedd. Er hynny, mae'r Llywodraeth am sicrhau mai dim ond mewn achosion sydd wedi'u caniatáu sy'n ymwneud â materion difrifol sydd o'r pwys mwyaf i les y cyhoedd y bydd Gorchmynion Gwarchod Costau yn cael eu gwneud yn y dyfodol, lle na fyddai'n bosibl symud ymlaen heb wneud gorchymyn. Dim ond yn yr achosion hynny y bydd y Llywodraeth yn gorfod cwrdd â'i chostau ei hun a chostau'r hawlwyd, pa un a fydd yn ennill neu'n colli, fel y bydd yn dwyn bron y cyfan o gostau'r ymglyfreitha. Mae'r Llywodraeth wedi'i darbwyllo hefyd ei bod yn briodol, os yw Gorchymyn Gwarchod Costau wedi'i wneud ar gyfer yr hawlwyd, y bydd y llys yn capio costau'r diffynnydd hefyd, gan sicrhau bod costau'n cael eu gwarchod er mwyn y trethdalwr drwy gadw'r costau i gyd o fewn terfynau rhesymol.
58. Felly bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i bennu'r fframwaith ar gyfer Gorchmynion Gwarchod Costau ac, yn benodol, mae'n bwriadu sicrhau y bydd dull manwl o benderfynu a yw 'er lles y cyhoedd' bod y materion yn yr hawliad yn cael eu datrys; mai dim ond achosion teilwng a fydd yn elwa fel mai dim ond wedi i'r llys roi caniatâd i symud ymlaen at adolygiad barnwrol y bydd Gorchymyn Gwarchod Costau ar gael; ac, os rhoddwyd Gorchymyn Gwarchod Costau, y bydd rhagdybiaeth y bydd y llys hefyd yn cynnwys croes-gap yn y gorchymyn ar atebolrwydd y diffynnydd i gwrdd â chostau'r hawlwyd. Hefyd, bydd y Llywodraeth yn ailsefydlu'r egwyddor mai dim ond os byddai'r hawlwyd yn gollwng yr hawliad fel arall, ac os byddai'n gweithredu'n rhesymol wrth wneud hynny, y bydd Gorchymyn Gwarchod Costau yn cael ei wneud.
59. Er nad oedd y ddogfen ymgynghori'n awgrymu unrhyw newid mewn Gorchmynion Gwarchod Costau mewn achosion amgylcheddol sy'n dod o fewn cwmpas Confensiwn Aarhus a Chyfarwyddeb Cyfranogiad y Cyhoedd, roedd rhai ymatebwyr o blaid cael dull mwy cyfyngol o warchod costau mewn achosion amgylcheddol. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl canlyniad achos sydd gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop ond, ar ôl cael gwybod y canlyniad, mae'n bwriadu ystyried a oes angen adolygiad pellach o'r dull o drafod Gorchmynion Gwarchod Costau mewn achosion amgylcheddol.

#### *Partïon sy'n ymyrryd*

60. Roedd y ddogfen ymgynghori yn trafod y posibilrwydd o gryfhau'r ddarpariaeth i ddyfarnu costau yn erbyn partïon sy'n dewis ymyrryd mewn achos fel y byddent yn cwrdd â'u costau eu hunain a chostau i bartïon sy'n ganlyniad i'w hymyrraeth.
61. Nododd rhai ymatebwyr fod partïon sy'n ymyrryd yn cwrdd â'u costau eu hunain yn barod gan mwyaf ac ychydig o gefnogaeth a gafwyd i'r syniad o beri iddynt ysgwyddo costau partïon eraill. Mynegwyd pryder ynghylch a fyddai hyn yn atal partïon sydd am ymyrryd rhag cymryd rhan mewn achosion, a nodwyd y gallai hyn fod yn niweidiol i ganlyniad terfynol yr achos gan fod partïon sy'n ymyrryd yn meddu ar arbenigedd y bydd y llys a'r partïon yn elwa ohono.
62. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod partïon sy'n ymyrryd yn gallu ychwanegu gwerth, drwy helpu'r llys i bennu'r cyd-destun a'r ffeithiau. Yn wir, bydd y Llywodraeth yn ymyrryd ei hun mewn rhai achosion. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn credu o hyd y dylai'r rheini sy'n dewis cymryd rhan mewn ymglyfreitha fod â buddiant ariannol mwy

cymesur yn y canlyniad ac y dylai hyn gynnwys partïon sy'n ymyrryd hefyd. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cymhwyso'r diwygiadau hyn at barti y mae'r llys wedi gofyn iddo ymyrryd. Y bwriad, yn hytrach, yw y bydd y diwygiadau hyn yn cael eu cymhwyso at y rheini sy'n dewis gwneud cais i'r llys am ymyrryd. Felly bydd y Llywodraeth yn rhoi diwygiadau ar waith, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, i gyflwyno'r rhagdybiaeth y bydd partïon sy'n ymyrryd yn cwrdd â'u costau eu hunain a'r costau sy'n codi i'r partïon o ganlyniad i'w hymyrraeth. Bydd y llysoedd yn cadw eu disgrisiwn i beidio â dyfarnu costau os nad yw hynny er budd i gyfiawnder.

#### *Partïon Allanol*

63. Mae'r Llywodraeth am sicrhau na ellir dwyn hawliadau mewn ffordd sy'n cyfyngu'r graddau y mae rhywun yn agored i dalu costau priodol ac yn osgoi pwerau'r llys i'w wneud yn atebol am dalu costau'r diffynnydd os bydd yn colli'r achos. Gall hyn gynnwys rhywun nad yw'n barti ffurfiol mewn hawliad, ond sy'n rhoi cymorth ariannol a chynghor i'r hawlydd 'a enwyd', neu hawlwr posibl sy'n sefydlu cwmnïau a hynny, yn y ddau achos, er mwyn osgoi risg ariannol lawn yr hawliad. Byddai ymddygiad o'r fath gan bartïon allanol yn gallu costio symiau sylweddol i'r trethdalwr. Ym marn y Llywodraeth, os yw partïon allanol yn hyrwyddo ymgyfreitha drwy weithredu fel hyn, dylent wynebu risg fwy cymesur o ran y costau.
64. Yn y ddogfen ymgynghori, holwyd a ddylai'r llysoedd gael mwy o bwerau i bennu partïon allanol a sicrhau na allant osgoi atebolrwydd am y costau y dylent eu talu.
65. Ar ôl ystyried yr ymatebion, mae'r Llywodraeth wedi'i bodloni y dylai'r llysoedd gael mwy o bwerau i bennu partïon allanol er mwyn cael y wybodaeth sydd ei hangen i wneud gorchmynion effeithiol ar gyfer costau o dan eu pwerau presennol. Cafwyd dadl i'r perwyl hwn gan yr uwch farnwriaeth yn eu hymateb i'r ymgynghoriad.
66. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i'w gwneud yn ofynnol bod y ceisydd yn darparu gwybodaeth am gymorth ariannol ar ddechrau'r adolygiad barnwrol, a bod y llysoedd yn dal sylw ar y wybodaeth hon er mwyn ystyried gwneud gorchmynion am gostau yn erbyn y rheini nad ydynt yn barti yn yr adolygiad barnwrol. Bydd hyn yn caniatáu i'r llysoedd wneud gwell defnydd o'r pwerau sydd ganddynt. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod na fyddai'n ddymunol o ganlyniad i'r newidiadau fod llysoedd yn cynnal ymchwiliad fforensig i wybodaeth am gymorth ariannol a bydd yn egluro mewn deddfwriaeth ac mewn rheolau llysoedd beth fydd cwmpas y wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau cydbwysedd priodol.

#### **Y Cynigion – Neidio**

67. Mae apelau 'neidio' yn achosion sy'n symud yn uniongyrchol o lys y gwrandawriad cyntaf i'r Goruchaf Lys, gan fynd heibio i'r Llys Apêl. O dan y dull gweithredu presennol mae'n ofynnol bod yr achos yn ymwneud â phwynt cyfreithiol sydd o bwysigrwydd i'r cyhoedd, ac sydd un ai'n ymwneud â dehongli statudol sydd wedi'i ddadlau'n llawn neu'n un lle y byddai llys y gwrandawriad cyntaf yn cael ei rwymo gan lys uwch. Rhaid cael cytundeb gan lys y gwrandawriad cyntaf ac un o Bwyllgorau'r Goruchaf Lys cyn y gall yr apêl neidio, a rhaid i'r ddau barti gydsynio hefyd.
68. Ym marn y Llywodraeth, os yw'n glir na fydd achos yn diweddu yn y Llys Apêl ond y bydd yn arwain at apêl bellach i'r Goruchaf Lys, mae'n bwysig ei bod yn cyrraedd y llys hwnnw'n gyflymach. Mae symud fesul cam drwy hierarchaeth y llysoedd yn gallu arwain at oedi hir, gan dynnu costau ychwanegol a gwneud drwg i ymddiriedaeth y

cyhoedd yn effeithiolrwydd y system gyfiawnder. Felly roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig tri newid yn y trefniadau presennol i roi mwy o gyfle ar gyfer apelau neidio:

- i. caniatáu i'r achos neidio ymlaen os yw o bwysigrwydd cenedlaethol neu os yw'n codi materion pwysig;
- ii. dileu'r gofyniad am gydsyniad yr holl bartion;
- iii. caniatáu i apelau neidio godi o benderfyniadau yn yr Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth a'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.

69. Byddai'r cynigion hyn yn gymwys i apelau neidio mewn achosion sifil a gweinyddol yn gyffredinol, nid apelau mewn achosion adolygiad barnwrol yn unig.
70. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn derbyn yr egwyddor y dylai achosion priodol gael eu hanfon yn gyflymach i'r Goruchaf Lys, er bod rhai wedi tynnu sylw at y perygl o roi gormod o bwysau ar y Goruchaf Lys a cholli'r fantais o ystyriaeth gan y Llys Apêl. O ran y cynigion penodol, roedd y mwyafrif o blaid y newidiadau hyn, er bod rhai gwelliannau wedi'u hawgrymu. Ymhlith y pryderon penodol a fynegwyd yr oedd y posibilrwydd bod y meini prawf ehangach yn rhy annelwig; y byddai dileu'r angen am gydsyniad yn tansilio hawliau i apelio; ac na ddylai'r cyfle ar gyfer apelau neidio gael ei ymestyn i gynnwys y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.
71. O dan y cynigion, byddai rôl bresennol llys y gwrandawriad cyntaf a'r Goruchaf Lys o ran cytuno bod apêl yn cael neidio ymlaen yn cael ei chadw, a byddai hyn yn lliniaru'r perygl posibl o roi gormod o bwysau ar y Goruchaf Lys. Byddai hyn yn sicrhau hefyd mai dim ond mewn achosion priodol y bydd apelau'n cael neidio ymlaen, ac yn ymateb i'r pryder ynghylch y posibilrwydd y bydd hawliau apelio yn cael eu tansilio ac na fydd achosion y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig yn addas i neidio ymlaen. Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig ehangu'r meini prawf i ganiatáu i rai achosion pwysig neidio ymlaen, ac y bydd y ddeddfwriaeth a'r dehongliad ohoni wedyn gan y farnwriaeth yn rhoi digon o eglurder.
72. Felly mae'r Llywodraeth wedi'i darbwyllo i wneud y tri newid a gynigiwyd er mwyn sicrhau bod modd datrys achosion priodol yn gyflymach, drwy lai o gamau ac am gost is. Cyflwynir deddfwriaeth i ymestyn y meini prawf ar gyfer caniatáu i apelau neidio ymlaen er mwyn cynnwys achosion sydd o bwysigrwydd cenedlaethol neu sy'n codi materion pwysig; i ddileu'r gofyniad am gydsyniad y ddau barti; ac i ganiatáu i apelau neidio o'r Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth a'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.

### **Effeithiau ar Gydraddoldeb**

73. Fel yr eglurwyd yn gynharach, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflymu achosion cynllunio a mynd i'r afael â'r camdefnydd o'r adolygiad barnwrol gan y rheini sy'n ceisio denu cyhoeddusrwydd neu atal gweithredu penderfyniadau sydd wedi'u gwneud mewn ffordd briodol a chyfreithlon, heb ystyriaeth i bwy sydd wedi dwyn yr adolygiad barnwrol.
74. Yn y ddogfen ymgynghori, eglurwyd y rhwymedigaethau sydd ar y Llywodraeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac, yn benodol, y gofyniad i roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng y rheini

sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rheini sydd hebddynt.<sup>10</sup> Drwy'r ymgynghoriad, ceisiodd y Llywodraeth gasglu mwy o sylwadau a thystiolaeth am yr effeithiau posibl ar gydraddoldeb ac mae wedi ystyried y rhain wrth gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf 2010.

75. Dadleuai nifer o ymatebwyr, ar y sail bod y rhan fwyaf o adolygiadau barnwrol yn ymwneud ag achosion mewnfudo a lloches, ei bod yn rhesymol rhagdybio bod posibilrwydd y bydd y cynigion (heblaw'r rhai ar gynllunio) yn cael effaith wahaniaethol ar nodweddion hil a chrefydd/cred. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall hyn fod yn wir ond, gan mai dim ond ar achosion gwan y bydd y cynigion yn effeithio, nid yw'n derbyn y bydd yr effaith yn anffafriol na bod y polisi'n anghywir.
76. Mewn rhai o'r ymatebion a gafwyd, gan gynnwys rhai oddi wrth elusennau a chyrrff anllywodraethol, dadleuwyd y byddai rhai diwygiadau (fel y rhai ynghylch diffygion gweithdrefnol) yn gallu cael effaith negyddol anghymesur ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig gan fod y grwpiau hynny'n tueddu i ryngweithio'n amlach â gwasanaethau'r wladwriaeth, ac felly y byddant yn gwneud ceisiadau am adolygiad barnwrol yn amlach. Ychydig o ddata sydd wedi'u casglu'n ganolog am ddefnyddwyr llysoedd yn gyffredinol ac, yn benodol, am y rheini sy'n dwyn achosion am adolygiad barnwrol sydd heb gysylltiad â mewnfudo a lloches, heblaw data sy'n dangos bod pobl ifanc 18–25 oed yn gwneud mwy o hawliadau ar gyfartaledd. Ni ellir dangos a oes cysylltiad rhwng graddau'r rhyngweithio â'r wladwriaeth a nifer yr adolygiadau barnwrol, ac mae'n bosibl bod ffactorau eraill yn effeithio ar hyn hefyd. Unwaith eto, mae'r Llywodraeth am bwysleisio mai ei nod yw delio ag achosion gwan yn unig ac felly mae'n rhag-weld na fydd effaith anffafriol yn debygol o godi.
77. Mynegwyd pryderon penodol gan ymatebwyr ynghylch y cynigion:
- ar gyfer Siambr Gynllunio a phrawf hidlo caniatâd ar gyfer apelau o dan adran 288 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar y sail y gallai gael effaith anghymesur ar gymunedau Sipsiwn a Theithwyr;
  - ar gyfer Gorchmynion Gwarchod Costau a phartïon sy'n ymyrryd, ar y sail y gallent beri i lai o hawliadau gael eu gwneud neu i lai o ddadleuon gael eu codi gan neu ar ran unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig;
  - ar gyfer diwygio mesurau ariannol eraill, ar y sail y gallent gael effaith anghymesur ar bobl mewn grwpiau incwm is sydd â mwy o nodweddion gwarchodedig ar gyfartaledd na grwpiau eraill.
78. Codwyd pwyntiau ynghylch cydraddoldeb hefyd mewn cysylltiad â'r newid posibl yn y prawf cymhwyster y mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â'i weithredu am y rhesymau sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 32 i 35.
79. Ar ôl rhoi sylw dyladwy i faterion cydraddoldeb, mae'r Llywodraeth o'r farn bod cyfiawnhad dros symud ymlaen â'r pecyn o ddiwygiadau sydd wedi'i ddisgrifio yn y ddogfen hon. Bydd y cynigion yn cyfyngu camddefnydd ac yn effeithio ar achosion gwan pa un a ydynt yn cael eu dwyn gan y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig neu beidio, nid ar achosion cryf (gan gynnwys y rheini y mae'n briodol eu hystyried yn rhai er lles y cyhoedd). Rhagwelir y bydd y mesurau'n arwain at ystyried yr achosion

---

<sup>10</sup> Y nodweddion gwarchodedig yw hil; rhyw; anabledd; oed; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd neu gred; beichiogrwydd a mamolaeth; ac ailbennu rhywedd.

cryfach hyn yn gynt drwy gyfeirio adnoddau prin y llysoedd, sy'n cael eu hariannu gan y trethdalwr, at yr achosion hyn. Hefyd, mae'n bosibl y bydd diwygiadau fel y prawf hidlo caniatâd ar gyfer heriau o dan adran 288 yn arbed costau i hawlwr, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig, drwy osgoi'r gost o baratoi ar gyfer gwrandawriad llawn lle y gallent fod yn aflwyddiannus. Ar ôl pwysu a mesur, am y rhesymau sydd wedi'u nodi uchod ac mewn cysylltiad â'r cynigion penodol, mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad bod y manteision o ddiwygio'n ddigon i gyfiawnhau'r effeithiau posibl ac, am y rhesymau hyn, mae'n credu bod ei dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi'u cyflawni.

## Y Camau Nesaf

80. Ym marn y Llywodraeth, lle y mae angen diwygio, mae'n hollbwysig bod hynny'n cael ei wneud yn gyflym. Felly, mae cymalau a fydd yn gweithredu'r cynigion canlynol wedi'u cynnwys yn y Mesur Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd:
- newidiadau yn y ffordd y mae'r llysoedd yn delio â diffygion gweithdrefnol drwy ddiwygio'r maen prawf am 'anocheledd' er mwyn sicrhau na fydd adolygiadau barnwrol yn mynd ymlaen ar sail diffygion 'technegol' bach;
  - lleihau'r posibilrwydd o arafu prosiectau a pholisïau allweddol drwy ehangu cwmpas apelau neidio (sy'n symud yn uniongyrchol o lys y gwrandawriad cyntaf i'r Goruchaf Lys);
  - cryfhau'r goblygiadau o gael Gorchymyn Costau a Wastraffwyd drwy roi dyletswydd ar y llysoedd i ystyried hysbysu'r corff rheoleiddio perthnasol a/neu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol pan wneir gorchymyn o'r fath;
  - pennu'r amgylchiadau lle y gall y llys wneud Gorchymyn Gwarchod Costau mewn adolygiadau barnwrol nad ydynt yn ymwneud â'r amgylchedd er mwyn sicrhau mai dim ond mewn achosion eithriadol y byddant yn cael eu defnyddio;
  - sefydlu rhagdybiaeth y bydd partion sy'n ymyrryd mewn arfarniad barnwrol yn gorfod talu eu costau eu hunain ac unrhyw gostau y maent wedi'u hachosi i'r naill barti neu'r llall oherwydd eu hymyrraeth;
  - cyflwyno gofynion newydd am ddarparu gwybodaeth gan bob ceisydd am adolygiad barnwrol ynghylch y ffordd y bydd yr achos adolygiad barnwrol yn cael ei ariannu yn y llysoedd a'r Uwch Dribiwnlys.
  - cyflwyno prawf hidlo caniatâd ar gyfer heriau o dan adran 288 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am y polisi ar gyfer y ddarpariaeth hon yn hytrach na'r Weinyddiaeth Gyfiawnder)
81. Mae'r Mesur a'r dogfennau sydd gydag ef sydd ar wefan y Senedd – [www.parliament.uk/business/bills-and-legislation/](http://www.parliament.uk/business/bills-and-legislation/) – yn egluro manylion y diwygiadau.
82. Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu cydweithio â'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Sifil, Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd a'r uwch farnwriaeth er mwyn cymryd camau buan ar:
- sefydlu Llys Cynllunio newydd;
  - dyfarnu costau'n amlach mewn gwrandawriadau caniatâd llafar.
83. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r cynnig ynghylch talu am adolygiadau barnwrol drwy gymorth cyfreithiol mewn is-ddeddfwriaeth yng ngwanwyn 2014.



84. Bydd y canlyniadau i gwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hystyried gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth fel rhan o'r gwaith ar weithredu argymhellion y Grŵp Llywio Annibynnol.
85. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn egluro bod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu'r rheolau ar Orchmynion Gwarchod Costau mewn achosion amgylcheddol, er mwyn sicrhau nad yw'r dull o weithredu Cyfarwyddeb Cyfranogiad y Cyhoedd wedi'i oreuro. Gwneir y gwaith hwn ar ôl cael y dyfarniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop.

### Cywiriad ystadegol

86. Roedd y ddogfen ymgynghori yn gwneud defnydd o ddata a gyhoeddwyd ar 20 Mehefin 2013 o fewn 'Court Statistics Quarterly January to March 2013'. Roedd y data am adolygiadau barnwrol wedi'u rhannu'n dri chategori, sef 'sifil (mewnfudo a lloches)', 'sifil (arall)', a 'troseddol'. Ar 29 Tachwedd 2013 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adolygiad o'r ffigurau hyn.<sup>11</sup> Mae'r adolygiad hwn wedi symud nifer bach o achosion o'r categori 'sifil (mewnfudo a lloches)' i'r categori 'sifil (arall)'. Yn yr hysbysiad diwygio ystadegol a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2013, diwygiwyd y ffigurau ym mharagraff 10 o'r ddogfen ymgynghori a diwygiwyd y siart ar dudalen 8 o'r ddogfen ymgynghori.
87. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad diwygio hwn, cyhoeddwyd ystadegau wedi'u diweddarau ar 19 Rhagfyr 2013 o fewn 'Court Statistics Quarterly July to September 2013'. Mae'r ystadegau diweddaraf hyn yn dangos y newid yn nifer yr adolygiadau barnwrol er 2000, wedi'u rhannu i'r tri chategori uchod.<sup>12</sup>

---

<sup>11</sup> [www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/262036/revision-judicial-review-figures-stats.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/262036/revision-judicial-review-figures-stats.pdf)

<sup>12</sup> [www.gov.uk/government/publications/court-statistics-quarterly-july-to-september-2013](http://www.gov.uk/government/publications/court-statistics-quarterly-july-to-september-2013)

## Atodiad A: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

88. Yn yr Atodiad hwn ac Atodiad B mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori. Ystyriwyd yr holl ymatebion yn ofalus wrth benderfynu sut i symud ymlaen. Ym mhob adran ceir disgrifiad o'r prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae'n anorod bod y rhain yn cynnwys barn nad yw'r Llywodraeth o reidrwydd yn cytuno â hi neu'n derbyn ei bod yn ffeithiol gywir.

### Pennod 3 – Cynllunio

89. Ymgynghorodd y Llywodraeth ar nifer o gynigion i fyrhau'r cyfnod a gymerir i ystyried adolygiadau barnwrol ac apelau statudol ynghylch cynllunio a phrosiectau seilwaith mawr. Ymhlith y rhain yr oedd cynnig i sefydlu Siambr Gynllunio newydd yn yr Uwch Dribiwnlys; cyflwyno prawf hidlo caniatâd ar gyfer apelau statudol; a diwygio'r rheolau gweithdrefnol i gynnwys terfynau amser ar gyfer cwblhau'r achosion hyn.
90. Cafwyd cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyffredinol ond, o'r rhain, roedd 235 o ymatebwyr heb gynnig sylwadau am y cynigion ynghylch cynllunio, gan gyfeirio at ddiffyg arbenigedd yn y maes hwn neu at ymatebion gan arbenigwyr ar gynllunio.

### Siambr Gynllunio Arbenigol

#### *Cwestiynau*

**Cwestiwn 1: A ydych yn rhag-weld manteision i greu Siambr Tir a Chynllunio arbenigol sy'n fwy na'r rhai y disgwylir eu gweld o'r Cynllunio Carlam?**

**Cwestiwn 2: Os credwch fod angen Siambr Tir a Chynllunio newydd, pa ofynion gweithdrefnol fyddai'n hwyluso ei rhedeg a pha fathau eraill o achosion (caniatadau amgylcheddol cysylltiedig, er enghraifft) a allai'r Siambr newydd eu gwranddo?**

#### *Crynodeb*

91. O'r 90 a ymatebodd i'r cwestiynau ynghylch cynllunio, roedd 43 o blaid creu Siambr arbenigol yn Haen Uchaf y system tribiwnlysoedd unedig a 47 yn gwrthwynebu'r cynnig. Roedd y pedwar ymatebydd sy'n weddill yn credu bod manteision ac anfanteision ynglŷn â'r ddau opsiwn.
92. Roedd y rheini a oedd yn erbyn creu Siambr Gynllunio (cynrychiolwyr barnwrol a chyfreithiol yn bennaf) yn teimlo y dylai'r Llywodraeth yn gyntaf asesu effeithiau'r newidiadau diweddar mewn adolygiadau barnwrol (sef byrhau'r cyfnodau ar gyfer dwyn achos am adolygiad barnwrol cynllunio; cyflwyno ffioedd a'r prawf am annheilyngdod llwyr; trosglwyddo adolygiadau barnwrol mewn fudo a lloches i'r Uwch Dribiwnlys) ac effeithiau'r drefn Cynllunio Carlam cyn cyflwyno rhagor o newidiadau. Roedd yr uwch farnwriaeth o blaid adeiladu ar sail y drefn Cynllunio Carlam drwy sefydlu Llys Cynllunio ar wahân o fewn y Llys Gweinyddol a ffurfioli'r amserlenni gweinyddol, gyda'r nod o symleiddio'r dull cyffredinol o drafod achosion cynllunio ac amgylcheddol yn y tymor hir.
93. Fodd bynnag, roedd sefydliadau datblygwyr, busnes a seilwaith yn fwy tebygol o fynegi cefnogaeth i sefydlu Siambr Gynllunio ac roeddent yn croesawu camau i

gyflymu'r broses o wrando achosion cynllunio a seilwaith mawr drwy ddefnyddio barnwyr arbenigol, rheolau gweithdrefnol newydd ac amserlenni statudol.

### *Siambwr Gynllunio*

94. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

- Amheuaeth y byddai'r Siambwr Tir yn rhoi unrhyw fanteision sylweddol o'i chymharu â'r drefn Cynllunio Carlam, gan y bydd yn defnyddio'r un barnwyr i wrando achosion a wrandawyd o'r blaen yn yr Uchel Lys ac mae ôl-groniad o achosion eisoes yn y Siambwr Tir
- Mae cyfraith cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn fater a ddatganolwyd ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fin cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gynllunio; mae'n bwysig bod y farnwriaeth a chynrychiolwyr cyfreithiol yng Nghymru yn ymwneud ag achosion cynllunio yng Nghymru. Roedd pryderon y byddai'r Siambwr Gynllunio yn fwy tebygol o wrando achosion yn Llundain na Chofrestrefydd Dosbarth y Llys Gweinyddol.
- Gan nad yw cymorth cyfreithiol yn cael ei ddarparu i bartïon mewn tribiwnlysoedd, roedd pryderon y bydd y cynnig yn rhoi grwpiau Sipsiwn a Theithwyr o dan anfantais mewn apelau cynllunio statudol.
- Eifen allweddol o ran lleihau oedi yw sicrhau bod gwrandawriadau caniatâd cyntaf yn cael eu cynnal gan farnwyr arbenigol awdurdodol er mwyn atal apelau pellach.
- Mae adolygiadau barnwrol cynllunio yn cynnwys materion pwysig o dan y gyfraith gyhoeddus a ddylai gael eu hystyried yn yr Uchel Lys o hyd yn hytrach na'u trafod ar sail cynllunio yn unig yn yr Uwch Dribiwnlys.
- Roedd amheuan ai'r Siambwr Tir, sy'n fforwm arbenigol sy'n ystyried dadleuon ar sail teilyngdod achosion, yw'r lle gorau i ystyried adolygiadau barnwrol sy'n edrych ar ddiffygion mewn prosesau.

### *Anghenion Gweithdrefnol Ychwanegol*

- Dylid diweddarau protocolau cyn-weithredu i adlewyrchu'r terfynau amser byrrach ar gyfer dwyn achos am adolygiad barnwrol cynllunio.
- Dylai'r ffurflen hawlio a'r ffurflen gydnabod cyflwyno ganiatáu i bartïon nodi a ddylai'r mater gael ei gyfeirio at y siambwr arbenigol.
- Oherwydd natur arbenigol y farnwriaeth, gall fod yn briodol diwygio'r hawl i gael gwrandawriad llafar neu beri i'r achos gael ei ailystyried ar sail papurau gan arbenigwr arall.
- Oherwydd natur arbenigol adolygiadau barnwrol cynllunio ac apelau statudol, mae'n briodol gwneud mwy o ddefnydd o dystiolaeth ysgrifenedig a therfynau amser ar gyfer cyflwyno tystiolaeth lafar.
- Dylid gosod trothwy uchel ar gyfer 'dadleuadwyedd' er mwyn chwynnu achosion gwan yn gynharach.
- Dylai'r Llywodraeth fyrhau'r cyfnod sy'n ofynnol o dan y Rheolau Gweithdrefnau Sifil ar gyfer dangos sail fanwl dros wrthsefyll o 35 o ddiwrnodau i 21 neu 28 o ddiwrnodau a chyfundrefnu amserlenni ar gyfer darparu dadleuon fframwaith (21 o ddiwrnodau ar gyfer hawlwyf/14 o ddiwrnodau ar gyfer diffynyddion).
- Mae angen cyfarwyddyd ar gyfer staff sy'n gyfrifol am ddyrannu achosion sydd hefyd yn cynnwys materion arwyddocaol sydd heb gysylltiad â chynllunio.

- Dylai'r cyfnod ar gyfer cyhoeddi llythyr cyn-weithredu i herio penderfyniad cynllunio fod yn chwe wythnos o'r adeg y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud ei benderfyniad ac nid o'r adeg y mae'n cyhoeddi'r hysbysiad o benderfyniad.
- Dylid cyhoeddi targedau yn y drefn Cynllunio Carlam neu'r Siambr newydd ochr yn ochr ag ystadegau perfformiad rheolaidd.
- Os eir ymlaen â'r cynnig hwn, byddai'n briodol dileu'r hawl awtomatig i gael gwrandawriad llafar mewn adolygiadau barnwrol cynllunio neu beidio ag ailystyried cais am adnewyddu heblaw ar sail papurau gan farnwr arbenigol arall.
- Mae'n briodol gwneud mwy o ddefnydd o dystiolaeth ysgrifenedig a gosod terfynau amser ar gyfer cyflwyno tystiolaeth lafar.
- Rhywfaint o gefnogaeth i gadw'r rheolau presennol yn y Rheolau Gweithdrefnau Sifil.

#### *Cwmpas y Siambr*

Cafwyd nifer o awgrymiadau gan ymatebwyr ynghylch y materion a ddylai fod o fewn cwmpas Siambr Gynllunio newydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Penderfyniadau cynllunio gan gynnwys Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd;
- Apelau statudol (288) o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Caniatadau a thrwyddedau amgylcheddol o bob math;
- Pob caniatâd datblygu cysylltiedig ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd;
- Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd;
- Rheoliadau Amgylcheddol a Rheoliadau Cynefinoedd;
- Meysydd Pentref a hawliau tramwy;
- Cynlluniau Lleol a dogfennau cynllunio eraill awdurdodau lleol;
- Materion amgylcheddol nad ydynt yn ymwneud â chynllunio.

### **Prawf hidlo caniatâd o dan adran 288**

#### *Cwestiwn*

**Cwestiwn 3: A oes achos dros gyflwyno 'chwynnwr' caniatâd ar gyfer heriau statudol o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref?**

#### *Crynodeb*

95. Roedd 41 o ymatebwyr o blaid cyflwyno prawf 'chwynnu' caniatâd ar gyfer apelau o dan adran 288 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 30 yn gwrthwynebu'r cynnig.
96. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:
  - Mae'n bosibl y bydd y cam ychwanegol hwn yn creu mwy o oedi.
  - Roedd rhai'n cynnig newidiadau pellach yn y broses apelio statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys gofyniad i ffeilio ffurflen gydnabod cyflwyno gyda

chrynodeb o sail yr amddiffyniad. Byddai hyn yn galluogi'r hawlwr a'r llysoedd i gael gweld cryfder yr achos yn gynharach, yn rhoi hwb i setlo'n gynnar ac yn atal rhai rhag tynnu achosion yn ôl yn hwyr.

## Tystiolaeth o effaith adolygiad barnwrol

### *Cwestiwn*

**Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw enghreifftiau/tystiolaeth o'r effaith y mae adolygiad barnwrol, neu her statudol i benderfyniadau gan lywodraeth, yn ei chael ar ddatblygiad, gan gynnwys seilwaith?**

97. Cafwyd enghreifftiau neu dystiolaeth gan 23 o ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, nifer ohonynt yn dangos bod prosiectau seilwaith wedi'u harafu, gan gynnwys:
- ASDA – oedi o ganlyniad i ddwyn achosion am adolygiad barnwrol gan gystadleuwyr;
  - Cymdeithas Gweithredwyr Meysydd Awyr – oedi o 9 mis cyn ehangu Maes Awyr Bryste a datblygiad Stansted Generation 1; oedi o 15 mis cyn ehangu rhedfa Maes Awyr Southend;
  - Cyngor Dosbarth Tendring – oedi o ddwy flynedd wedi'i achosi'n barod gan adolygiad barnwrol sy'n parhau ynghylch adeiladu Porthladd Terfynfa Cynwysyddion;
  - Ffederasiwn Eiddo Prydain – Shopping Centre London – oedi o 15 mis a chostau ychwanegol.

## Awgrymiadau ychwanegol ar gyfer cyflymu adolygiadau barnwrol

### *Cwestiwn*

**Cwestiwn 5: Yn fwy cyffredinol, a oes unrhyw awgrymiadau yr hoffech eu gwneud i gyflymu gweithrediad y prosesau adolygiad barnwrol neu herio statudol yng nghyswllt datblygiad, gan gynnwys seilwaith?**

98. Cafwyd awgrymiadau gan 33 o ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys:
- Darparu mwy o adnoddau, yn enwedig nifer y barnwyr arbenigol.
  - Cyflwyno cam caniatâd ar gyfer hawliadau o dan adran 288.
  - Mwy o orfodi ar y rheolau a'r terfynau amser presennol ar gyfer ffeilio tystiolaeth er mwyn atal oedi.
  - Ystyried cyfyngu Gorchmynion Gwarchod Costau fel na fydd partion wedi'u diogelu wrth herio datblygiadau gan gystadleuwyr.
  - Mwy o orfodi ar y gofyniad am brotocol cyn-weithredu i atal ffeilio adolygiad barnwrol ar y diwrnod olaf posibl heb unrhyw gosb o ran costau am fod Gorchmyn Gwarchod Costau yn diogelu rhag hynny.
  - Mwy o ddefnydd o lysoedd rhanbarthol.

## Herio Prosiectau Seilwaith gan Awdurdodau Lleol

### Cwestiynau

**Cwestiwn 6: A ddylid cyfyngu ymhellach ar hawliau awdurdodau lleol i herio penderfyniadau ar brosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd?**

**Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o achosion wedi eu dwyn gan awdurdodau lleol ac effaith hyn (e.e. cost neu oedi)?**

### Crynodeb

99. Roedd y cynnig hwn yn ymwneud â chyfyngu ar allu awdurdodau lleol i ddwyn achos am adolygiad barnwrol o Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd sydd wedi'i ganiatáu o dan broses syml yn Neddf Cynllunio 2008. O'r cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, cafwyd ymateb gan 84 i'r cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hynny, roedd 6 o blaid y cynnig, roedd 77 yn ei wrthwynebu ac roedd barn gymysg gan 1.

100. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

- Na chafwyd unrhyw her i Brosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd gan awdurdod lleol felly nid oedd y cynigion hyn yn targedu problem wirioneddol.
- Bod hyn yn gyfyngiad mympwyol ar bwerau awdurdodau lleol ac y byddai'n cael effaith negyddol ar drefn y gyfraith.
- Y byddai'r newid yn aneffeithiol; er enghraifft, gallai awdurdod lleol roi cymorth ariannol i grŵp cymunedol i gyflwyno her. Ar y llaw arall, dadleuwyd na fyddai modd herio prosiect anghyfreithlon os nad oedd awdurdod lleol yn gallu cyflwyno her.
- Y byddai'n annemocrataidd ac yn groes i'r agenda ehangach ar leoliaeth.
- Ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn cynrychioli buddiannau preswylwyr lleol.
- Mai mater i'r trethdalwyr ac etholwyr mewn ardal yw barnu ynghylch unrhyw benderfyniad i ymglyfreitha.
- Y byddai'r newid hwn yn golygu gwrthod mynediad at gyfiawnder os oedd awdurdod lleol yn bodloni'r prawf cymhwyster fel arall, yn enwedig am y gallai wneud hawliad y mae'n ystyried ei fod er lles y gymuned leol.
- Bod awdurdodau lleol yn tueddu i ymddwyn yn gyfrifol a pheidio â mentro arian y trethdalwyr ar achosion annheilwng am adolygiad barnwrol.
- Bod Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol i erlyn neu amddiffyn mewn achos cyfreithiol dim ond os yw hynny er lles preswylwyr eu hardal ac mai dim ond ar ôl eu hystyried yn drwyadl y bydd awdurdodau lleol yn gwneud hawliadau fel arfer.
- Oherwydd natur Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd, mae'n anorfod bron y bydd hawlydd posibl a allai gyflwyno her yn lle awdurdod lleol, felly ni fydd y risg o her ond ychydig yn llai.
- Y gallai'r newid hwn greu mwy o berygl o oedi am fod heriau'n cael eu cyflwyno gan unigolion mewn ffordd ddigyswllt yn hytrach nag un her gan awdurdod lleol.

## Heriau i benderfyniadau cynllunio o dan adrannau 288 a 289 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

### Cwestiwn

**Cwestiwn 8: A oes gennych farn ynghylch a ddylai cymorth cyfreithiol wedi'i ariannu gan y trethdalwr barhau i fod ar gael i herio penderfyniadau cynllunio'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 288 a 289 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 lle yr apeliwyd yn barod i'r Ysgrifennydd Gwladol neu lle y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud penderfyniad ar gais a alwyd i mewn (ac eithrio lle y byddai methu ag ariannu her o'r fath yn arwain at fethu neu risg o fethu â chynnal hawl y ceisydd i dderbyn cymorth cyfreithiol o dan yr ECHR neu'r UE)?**

### Crynodeb

101. Yn y ddogfen ymgynghori, nodwyd bod y Llywodraeth yn ystyried a yw'n briodol bod cymorth cyfreithiol ar gael o hyd ar gyfer yr achosion hyn. Gofynnwyd am sylwadau ynghylch a ddylai cymorth cyfreithiol fod ar gael o hyd ar gyfer heriau i benderfyniadau cynllunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 288 a 289 o'r Ddeddf os oedd apêl wedi bod i'r Ysgrifennydd Gwladol yn barod neu os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu ar gais a alwyd i mewn. Ni fyddai hyn yn effeithio ar y gallu i gael cymorth cyfreithiol lle y byddai methu ag ariannu'r her yn arwain at dorri neu berygl o dorri hawliau'r ceisydd am gymorth cyfreithiol o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop neu gyfraith yr UE.
102. Roedd nifer mawr o ymatebwyr heb ddatgan barn am hyn. O'r cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 88 o ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hynny, roedd 65 o blaid cadw cymorth cyfreithiol ar gyfer yr achosion hyn, roedd 11 o blaid dileu cymorth cyfreithiol, ac roedd 12 heb ddatgan barn bendant.
103. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:
  - Pryderon y byddai dileu cymorth cyfreithiol yn cyfyngu cwmpas Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (sydd eisoes wedi cyfyngu cymorth cyfreithiol mewn apelau o'r math hwn i achosion lle y mae'r unigolyn mewn perygl o golli ei gartref yn syth) ac y byddai'n anghyfiawn o ystyried pwysigrwydd y mater hwnnw i'r unigolyn sy'n cael cymorth cyfreithiol.
  - Y byddai unrhyw gyfyngu pellach ar argaeledd cymorth cyfreithiol yn y maes hwn yn groes i'r sail resymegol a fynegwyd wrth basio Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, ac sydd felly'n sail i gwmpas cymorth cyfreithiol yn gyffredinol ar hyn o bryd.
  - Nad yw'r mater hwn yn gysylltiedig â nodau'r cynigion eraill ar gynllunio yn y ddogfen ymgynghori, sy'n ymwneud â hybu twf, ac mai ei bwmpas mewn gwirionedd oedd targedu Sipsiwn a Theithwyr. Nododd ymatebwyr nad oedd data wedi'u darparu o blaid y ddadl dros ymchwilio i unrhyw gyfyngu pellach ar gymorth cyfreithiol yn y maes hwn.
  - Y dylid ystyried cyflwyno prawf hidlo caniatâd ar gyfer achosion o dan adran 288 yn lle hyn. Mae prawf hidlo ar gael eisoes ar gyfer achosion o dan adran 289.

## Pennod 4 – Cymhwyster

### Cwestiynau

**Cwestiwn 9: A gredwch fod problem gyda dwyn achos lle nad oes gan yr hawlydd fawr ddim neu ddim budd uniongyrchol o gwbl yn y mater? Unrhyw enghreifftiau?**

**Cwestiwn 10: Pe bai'r Llywodraeth yn deddfu i ddiwygio'r prawf cymhwyster, a fyddai unrhyw un o'r opsiynau eraill presennol yn darparu sail resymol? A ddylai'r Llywodraeth ystyried opsiynau eraill?**

**Cwestiwn 11: A oes unrhyw faterion eraill, fel y rheolau ar bartïon sy'n ymyrryd, y dylai'r Llywodraeth eu hystyried wrth geisio datrys y broblem o ddefnyddio adolygiad barnwrol fel offeryn ymgyrchu?**

### Crynodeb

104. Yn y bennod hon, gofynnodd y Llywodraeth am sylwadau ynghylch a ddylid diwygio'r prawf cymhwyster – sy'n pennu pwy a gaiff ddwyn achos am adolygiad barnwrol – i'w gwneud yn ofynnol bod buddiant 'uniongyrchol' ac, os felly, pa fath o brawf newydd y dylid ei gyflwyno. O'r 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 241 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. O'r 241 hynny, roedd 16 o blaid diwygio'r prawf, roedd 213 yn erbyn newid y prawf ac roedd 12 wedi rhoi ymateb cymysg.

105. Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid tynhau'r dull o drafod cymhwyster. Nododd yr uwch farnwriaeth fod y maes hwn yn peri pryder "neilltuol" iddynt yng nghyswllt atal heriau teilwng, ac ategwyd y farn hon gan lawer. Mynegwyd pryderon hefyd gan Gyngor y Bar, siambrau a bargyfreithwyr unigol, Cymdeithas y Cyfreithwyr, a gwahanol fathau o gwmnïau cyfreithwyr (gan gynnwys rhai masnachol mawr) yn ogystal â chyrff anllywodraethol.

106. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

- Y byddai mynnu bod buddiant uniongyrchol yn golygu gwrthod cymhwyster ar gyfer hawliadau teilwng, a byddai hyn yn enghraifft o ddefnyddio techneg weithdrefnol gan y Llywodraeth i rwystro ystyriaeth i faterion pwysig.
- Y byddai prawf buddiant uniongyrchol yn nacáu mynediad at gyfiawnder i raddau arwyddocaol ac yn gwanhau trefn y gyfraith.
- Y byddai atal heriau er lles y cyhoedd yn newid rôl yr adolygiad barnwrol – sef herio camwri cyhoeddus ac anghyfreithlondeb – yn hytrach na chaniatáu i bersonau ddiogelu eu hawliau eu hunain.
- Nad oes fawr o dystiolaeth bod problem ynglŷn â'r ffordd bresennol o weithredu, ac ychydig o hawliadau sy'n cael eu gwneud er lles y cyhoedd. Mae hawliadau sydd wedi'u gwneud gan gyrff anllywodraethol yn fwy llwyddiannus gan amlaf, fel y mae ffigurau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos. Hefyd, nid oes fawr o dystiolaeth bod yr adolygiad barnwrol yn cael ei ddefnyddio fel arf ymgyrchu – mae'r prawf hidlo caniatâd yn gweithio'n dda eisoes.
- Bod cyrff anllywodraethol arbenigol yn helpu'r llys a'u bod yn gallu helpu'r llys i ddeall y cyd-destun polisi cyhoeddus. Yn ogystal â'r ffaith eu bod yn helpu hawlwy, dadleuwyd bod hyn yn fanteisiol i'r Llywodraeth.
- Bod unrhyw brawf newydd yn debygol o fod yn aneffeithiol gan ei bod yn debygol y bydd cyrff anllywodraethol yn gallu dod o hyd i bersonau sy'n profi effaith uniongyrchol i gyflwyno her yn eu lle.



- Y gallai hyn greu goblygiadau anffafriol o ran costau byw os na fydd grwpiau defnyddwyr yn gallu herio penderfyniadau rheoliadol.
- Y byddai'r newid hwn yn golygu na cheir gwrthwynebwr posibl i herio rhai gweithredoedd gan Lywodraeth, a'i fod felly'n cadw'r Llywodraeth rhag craffu gan y llysoedd i bob pwrpas.
- Ei bod yn debygol y bydd ymglyfreitha yn sgîl cymhwyso unrhyw brawf ac y bydd hyn yn cymryd amser ac yn achosi ansicrwydd yn y cyfamser.
- Ei bod yn bosibl y bydd person sydd heb fuddiant uniongyrchol yn gwneud hawliad dim ond er mwyn creu cyhoeddusrwydd ar gyfer ei achos o ganlyniad i'r ffaith bod y llysoedd heb roi caniatâd (oherwydd ei ddiffyg cymhwyster).
- Ynghylch y cwestiwn am opsiynau eraill ar gyfer y prawf, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn dadlau nad oedd unrhyw un o'r opsiynau posibl a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori yn foddhaol a bod y dull presennol yn gweithio'n dda. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ategu barn y Llywodraeth bod y prawf cymhwyster cyffredinol ar gyfer herio mesurau'r UE yn Llys Cyfiawnder Ewrop, sy'n galw am fuddiant uniongyrchol ac unigol, yn rhy gyfyng i'w ystyried.
- Dadleuai nifer o ymatebwyr fod partion sy'n ymyrryd yn helpu'r llys gan mwyaf, a bod rheolaeth eang gan farnwyr eisoes ar y gallu i ymyrryd.

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig i newid y prawf cymhwyster, er enghraifft:

- Mae angen i bobl fod â buddiant uniongyrchol mewn penderfyniadau er mwyn gallu eu herio: fel arall bydd tagfeydd yn y system. Cafwyd dadleuon bod y prawf presennol, drwy ganiatáu her gan y rheini sydd â chysylltiad bach iawn, yn peri bod awdurdodau cyhoeddus (yn enwedig awdurdodau lleol) yn gorfod gwastraffu arian prin ar amddiffyn mewn adolygiadau barnwrol. Cafwyd rhybudd, er hynny, gan nifer o ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig y dylai'r Llywodraeth ochel cyfyngu'r buddiant uniongyrchol i'r fath raddau fel na fydd neb yn cael ei ystyried yn gymwys.
- Bod caniatáu i unrhyw berson, ni waeth pwy ydyw, i herio penderfyniad y mae'r llys yn teimlo ei fod am edrych arno'n golygu tansellio'r broses ddemocrataidd gan ei fod yn caniatáu i farnwriaeth anetholedig, anghynrychiadol ac anatebol gymryd meddiant o bwerau penderfynu ar gais grwpiau pwyso sydd yr un mor anetholedig, anghynrychiadol ac anatebol.

## **Pennod 5: Diffygion Gweithdrefnol**

### *Cwestiynau*

**Cwestiwn 12: A ddylid cyflwyno'r ystyriaeth o'r ddadl "dim gwahaniaeth" yn gynt fel rhan o'r cam caniatâd ar sail yr hyn a honnir gan y diffynnydd ar y ffurflen Cydnabod Cyflwyno?**

**Cwestiwn 13: Sut y gallai'r Llywodraeth liniaru'r risg bod ystyried y ddadl "dim gwahaniaeth" yn troi'n rihyrsal iawn ar gyfer y gwrandawriad terfynol, ac felly'n ychwanegu at gost yr achos llys?**

**Cwestiwn 14: A ddylid newid y trothwy ar gyfer asesu a ddylid gwrthod achos sy'n seiliedig ar ddiffyg gweithdrefn i fod yn "debygol iawn" y byddai'r canlyniad wedi bod yr un fath? A oes prawf arall a allai gyflawni'r canlyniad sydd mewn golwg yn well?**

**Cwestiwn 15: A oes mesurau eraill y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i leihau effaith adolygiadau barnwrol sy'n cael eu dwyn dim ond ar sail diffygion gweithdrefn?**

**Cwestiwn 16: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o achosion yn cael eu dwyn ar sail diffyg gweithdrefn yn unig, ac effaith yr achosion hyn (e.e. cost neu oedi)?**

*Crynodeb*

107. Yn y bennod hon, roedd y Llywodraeth yn cynnig dau newid yn y dull presennol o drafod heriau sy'n cael eu cyflwyno ar sail diffygion gweithdrefnol na fyddai wedi gallu gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad gwreiddiol. Roedd y cynigion yn ymwneud ag (a) caniatáu prawf mwy trwyadl ar ddadleuon o'r fath yn gynharach ym mhroses yr adolygiad barnwrol – ar y cam caniatâd – a (b) cymhwyso prawf ar drothwy is, sef 'tebygol iawn' yn lle'r trothwy 'anorod' presennol. O'r 325 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd 170 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 170 hynny, roedd 17 o blaid diwygio'r prawf, ond roedd 132 yn gwrthwynebu. Roedd barn gymysg gan 21 am rinweddau'r cynnig.

108. Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth gan ymatebwyr ond ychydig o fanylion, at ei gilydd, ynghylch eu rhesymau dros gefnogi'r cynnig. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gwrthwynebu unrhyw ddiwygio, ac roedd nifer yn amau a oedd unrhyw sail i'r cynnig am ddiwygio.

109. Lle y nodwyd enghreifftiau o wneud hawliadau ar sail 'diffygion gweithdrefnol' yn unig, roedd yr ymatebion yn dadlau gan mwyaf fod yr hawliadau hyn yn ymwneud ag anghyfreithlondeb sylweddol a bod yr hawliadau wedi codi materion pwysig iawn.

110. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

*Opsiwn 1 – Cyflwyno Ystyriaeth yn gynt*

- Gellir gwrthod hawliad ar sail diffygion gweithdrefnol eisoes yn y cam caniatâd. Mae'r farnwriaeth yn gwneud penderfyniadau o'r fath mewn ffordd briodol yn barod.
- Y gallai'r cynnig arwain at 'rihysio' dadleuon am sylwedd yr hawliad yn y cam caniatâd, gan arafu proses yr adolygiad barnwrol ac ychwanegu at gostau. Nid oedd ffordd effeithiol o liniaru'r risg hon.
- Nad yw'r cam caniatâd yn briodol ar gyfer ystyried a fuasai gwahaniaeth yn bosibl, yn bennaf am na fydd y diffynnydd wedi datgelu ei bapurau'n llawn i'r hawlydd.
- Roedd rhai ymatebwyr wedi nodi cysylltiad hefyd â thalu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol. Drwy ystyried hyn ar ddechrau'r broses, byddai cyfreithwyr sy'n gweithio ar achosion lle y derbynnir cymorth cyfreithiol yn gorfod gwneud mwy o waith 'ar fenter', ac felly gallent fod yn llai parod i ymgymryd â hawliadau.
- Mewn sylwadau a oedd yn cefnogi'r newid hwn, roedd ymatebwyr yn cytuno y gallai leihau nifer yr hawliadau gwan sy'n cael eu dwyn a sicrhau bod y rhai teilwng yn cael eu datrys yn gynt. Hefyd gallai atal hawliadau gan rai sy'n dwyn achosion am adolygiad barnwrol er mwyn arafu penderfyniadau.
- Nododd rhai ymatebwyr fod achosion am adolygiad barnwrol cynllunio yn cael eu dwyn yn eithaf aml ar sail pwyntiau technegol y gallai'r llys ddod i'r casgliad na

### *Opsiwn 2 – Trothwy gwahanol*

- Nododd yr uwch farnwriaeth y byddai gosod trothwy is yn golygu na fydd rhai prosesau anghyfreithlon a allai fod wedi cael effaith yn cael eu hystyried yn llawn gan y llys na'u hunioni.
- Dadleuai nifer o ymatebwyr hefyd y byddai gosod trothwy is yn golygu bod llai o bwys yn cael ei roi ar yr angen i ddilyn prosesau cyfreithlon gan awdurdodau cyhoeddus.
- Mae gan y farnwriaeth brofiad o wneud penderfyniadau o'r fath ac nid oes angen newid y prawf.
- Mae perygl y bydd unrhyw newid yn peri bod adolygiadau barnwrol yn canolbwyntio ar sylwedd yn hytrach nag ar broses (fel y gwneir yn awr). Gall hyn olygu y bydd y barnwr yn dechrau edrych ar sylwedd a rhinweddau'r penderfyniad, a'i fod yn gorfod tresmasu ar briod faes y penderfynwr.
- Unwaith eto, nododd rhai ymatebwyr y gallai hyn arwain at 'rihysio' dadleuon ynghylch sylwedd yr hawliad yn y cam caniatâd, gan arafu proses yr adolygiad barnwrol ac ychwanegu at gostau.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau bod y cynnig yn dangos camddealltwriaeth gan y Llywodraeth o'r pwysigrwydd o ddilyn prosesau cyfreithlon (yn enwedig y rheini sydd wedi'u pennu mewn statud), a oedd yr un mor bwysig ag unrhyw anghyfreithlondeb sylweddol.

## **Pennod 6 – Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

### *Cwestiynau*

**Cwestiwn 17: A allwch awgrymu unrhyw ddulliau eraill o ddatrys anghydfodau sy'n gysylltiedig â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a fyddai'n gynt a mwy costeffeithiol nag adolygiad barnwrol? Eglurwch sut y gallai'r rhain weithio'n ymarferol.**

**Cwestiwn 18: A oes gennych unrhyw dystiolaeth o faint a natur yr heriau sy'n gysylltiedig â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus? Os oes, a fydddech gystal â'i darparu?**

### *Crynodeb*

111. Roedd cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch a fyddai'n well datrys anghydfodau sy'n ymwneud â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) drwy dull heblaw'r adolygiad barnwrol. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad gan y Grŵp Llywio Annibynnol, y cyhoeddwyd ei adroddiad ar ddiwrnod lansio'r ymgynghoriad.
112. O'r cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 136 o ymatebwyr wedi ateb rhai neu'r cyfan o'r cwestiynau am DCSC. Roedd y rhan fwyaf o'r 136 o ymatebion hynny (107) yn cynnwys ymateb negyddol i'r cwestiwn, ac yn dadlau y dylai'r adolygiad barnwrol barhau'n brif dull o ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â DCSC. Roedd 18 (o'r 136 o ymatebwyr) yn credu bod rhywfaint o le i ddefnyddio dulliau eraill, ac yn cynnig awgrymiadau ar hynny. Roedd 11 o ymatebwyr wedi

mynegi barn gymysg, gan amau a oedd opsiynau yn lle adolygiad barnwrol ond yn derbyn bod hynny'n bosibl.

113. Roedd y rheini a oedd yn erbyn gwneud newidiadau yn y maes hwn yn dadlau bod yr adolygiad barnwrol yn hanfodol ar gyfer gweithredu a gorfodi DCSC a bod achosion wedi arwain at welliannau o ran diogelu cydraddoldebau. Cafwyd awgrym gan nifer y dylai'r adolygiad barnwrol fod ar gael i orfodi DCSC tra bydd ar ei ffurf bresennol. Fodd bynnag, roedd nifer o'r ymatebion negyddol wedi dehongli cynigion yr ymgynghoriad fel pe baent yn galw am ddileu adolygiadau barnwrol ynghylch DCSC, yn hytrach na gofyn am farn am dulliau eraill.
114. Roedd rhai ymatebwyr yn gweld gwerth mewn defnyddio dulliau eraill yn lle adolygiad barnwrol. Ymhlith yr awgrymiadau roedd rhai am ddefnyddio tribiwnlys arbenigol, Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod, rheoleiddiwr annibynnol a phwerau gorfodi cryfach ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Roedd rhai hefyd yn awgrymu bod angen rhoi pwyslais ar sicrhau cydymffurfiaeth lawn â DCSC gan gyrff cyhoeddus (drwy god ymarfer statudol neu ganllawiau gwell). Yn ogystal â hyn, nododd ymatebwyr y byddai angen yr un pwerau â'r Uchel Lys ar gyfer unrhyw ddull arall, neu y byddai angen i adolygiad barnwrol fod ar gael o hyd ar ôl dilyn pob llwybr posibl arall.
115. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi unrhyw dystiolaeth a oedd ganddynt ynghylch nifer a natur yr heriau sy'n ymwneud â DCSC. Roedd cyfran fach o'r ymatebwyr yn gallu darparu gwybodaeth am hyn. Roedd nifer o'r rheini a ddarparodd wybodaeth wedi tynnu sylw at achosion y credent eu bod wedi arwain at newid er gwell yn ymddygiad y corff cyhoeddus neu mewn polisi ehangach yng nghyswllt diogelu cydraddoldebau.
116. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:
- Bod dyfarnu ynghylch torri DCSC yn waith pwysig – hyd yn oed os gwneir yr un penderfyniad yn y pen draw.
  - Nad yw adolygiadau barnwrol yn arwain at ail-wneud un penderfyniad yn unig – gallant arwain at fanteision sylweddol i hawlwyrr a phobl eraill.
  - Na ddylid trin DCSC yn wahanol i ddyletswyddau eraill o dan y gyfraith gyhoeddus – dylid gallu ei gorfodi mewn llysoedd.
  - Os yw'r Senedd am newid neu ddiddymu'r ddyletswydd, dylai wneud hynny.
  - Nid oes dystiolaeth o unrhyw broblem ynghylch heriau ar sail DCSC.
  - Fel arfer, bydd DCSC yn sail ychwanegol mewn her fwy cyffredinol. Byddai defnyddio dull arall yn arwain at ymglyfreitha deul – un ar gyfer DCSC ac un arall ar gyfer seiliau eraill.
  - Tynnodd ymatebwyr sylw at achosion amrywiol lle'r oedd her ar sail DCSC wedi sicrhau budd sylweddol i'r hawlwydd yn ogystal â newid ehangach mewn polisi.
  - Byddai ymglyfreitha yn sgîl dileu'r cyfle i ddwyn achos am adolygiad barnwrol ar y dechrau.
  - Mae DCSC newydd ddechrau sefydlogi ac mae'r llysoedd wedi pennu terfynau'n effeithiol – ni ddylid ymyrryd â hyn.

- Mae'r gofyniad am chwilio am ddulliau heblaw'r adolygiad barnwrol yn bodoli eisoes o dan y Protocol Cyn-weithredu – ar ôl dilyn pob llwybr posibl arall y gwneir hawliad am adolygiad barnwrol.
- Mae'r adolygiad barnwrol yn gofyn am ddefnyddio llawer o adnoddau gan y ddwy ochr – gallai dulliau eraill fod yn rhatach ac yn gyflymach.
- Mae adolygiadau barnwrol ynghylch DCSC yn rhoi gormod o faich ar gyrff cyhoeddus felly dylid dod o hyd i ddulliau eraill.
- Gallai cyrff arbenigol fod yn fwy effeithiol gan ddatrys anghydfodau'n gynt.
- Byddai angen yr un pwerau â'r Uchel Lys ar gyfer unrhyw dull arall, neu byddai angen i adolygiad barnwrol fod ar gael o hyd ar ôl dilyn pob llwybr posibl arall.
- Mae angen canllawiau gwell ar gyfer cyrff cyhoeddus ynghylch cydymffurfio â DCSC.
- Dylid cryfhau pwerau gorfodi'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Dylai cyrff cyhoeddus ymateb yn briodol i'r weithdrefn cyn-weithredu.
- Rhai o'r dulliau eraill posibl yw Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod, rheoleiddiwr annibynnol, neu driwlynlys arbenigol newydd neu ehangu awdurdodaeth un o'r triwlynlysoedd presennol e.e. Triwlynlysoedd Cyflogaeth.
- Gellid ei gwneud yn ofynnol bod yr hawlydd yn nodi ar y ffurflen gais a yw'n bwriadu cyflwyno dadl ar sail DCSC.

## **Pennod 7 – Cydbwysu Cymhellion Ariannol**

117. Yn y bennod hon, roedd y Llywodraeth yn gofyn am sylwadau ynghylch sut i addasu'r dull o bennu costau mewn adolygiadau barnwrol er mwyn cymell hawlwyr a'u cynrychiolwyr cyfreithiol i ystyried yn fwy gofalus y manteision o ddwyn achos am adolygiad barnwrol a'r ffordd y maent yn delio â'r achos. Trafodwyd diwygiadau mewn pum maes: cyfyngu taliadau i ddarparwyr cymorth cyfreithiol os na roddir caniatâd; costau gwrandawiadau caniatâd llafar; Gorchmynion Costau a Wastraffwyd; Gorchmynion Gwarchod Costau, a chostau sy'n gysylltiedig â phartïon sy'n ymyrryd a phartïon allanol. Mae'r cynnig ar dalu am waith caniatâd mewn adolygiadau barnwrol wedi'i drafod yn Atodiad B.

### **Costau Gwrandawiadau Caniatâd Llafar**

#### *Cwestiwn*

**Cwestiwn 21: A ddylai'r llysoedd ystyried dyfarnu costau gwrandawriad caniatâd llafar fel mater o gwrs yn hytrach na dim ond mewn amgylchiadau eithriadol?**

#### *Crynodeb*

118. Roedd y cynnig hwn yn cyflwyno'r egwyddor y gellir adennill costau gwrandawriad caniatâd llafar fel mater o gwrs fel arfer, yn hytrach nag mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. O'r cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 148 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r ymatebion hynny, roedd 23 o blaid y cynnig, ond roedd 121 yn ei wrthwynebu. Roedd 4 ymatebydd wedi gwneud sylwadau ond wedi mynegi barn gymysg ar gefnogi neu wrthwynebu'r cynnig.

119. Nid oedd y mwyafrif o ymatebwyr o blaid y cynnig yn gyffredinol, a chyfeiriwyd at broblemau o ran cael mynediad at gyfiawnder o ganlyniad i osod mwy o rwystrau ariannol rhag dwyn achos am adolygiad barnwrol: dadleuwyd na fyddai hawlwr yn gallu fforddio dod ag achos. Thema gyffredin yn sylwadau'r ymatebwyr oedd mai pwrpas y gwrandawriad yw profi'r achos gan yr hawlydd ac nad yw'n ofynnol i'r diffynnydd fod yn bresennol ond, os bydd y diffynnydd yn dewis bod yn bresennol, y dylai ddwyn ei gostau ei hun. Nododd ymatebwyr ei bod yn rhy gynnar i symud ymlaen ar hyn heb ystyried effaith diwygiadau blaenorol (sef dileu'r hawl i gael gwrandawriad llafar mewn achosion y tybir eu bod yn hollol anheilwng, a'r ffi newydd am wrandawriad llafar).
120. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig i gyflwyno egwyddor o'r fath mewn achosion masnachol, o gydnabod bod gwrandawriadau o'r fath yn para'n hirach ac yn cynnwys mwy o gostau.
121. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:
- Y dylai'r rheolau ynghylch costau mewn adolygiadau barnwrol fod yn wahanol; mae'r prawf hidlo caniatâd yn achos arbennig ac mae'n diogelu diffynnyddion rhag achosion annheilwng ac mae hyn yn awgrymu y dylai'r diffynnydd gwrdd â'i gostau ei hun.
  - Nid yw'r gwrandawriad llafar ar gyfer amddiffyn gan y diffynnydd ond ar gyfer profi'r achos gan yr hawlydd a phenderfyniad gan y llys ynghylch a yw'r achos yn ddadleuadwy. Felly mae presenoldeb y diffynnydd yn wirfoddol (oni bai fod y llys yn ei wneud yn ofynnol) ac os bydd yn dewis bod yn bresennol, dylai gwrdd â'i gostau ei hun. Gellir dadlau nad yw'r diffynnydd yn ychwanegu dim at y gwrandawriad na ellid delio ag ef drwy sylwadau ar bapur.
  - Gallai hyn droi gwrandawriadau caniatâd yn 'rihysal' ar gyfer y gwrandawriad llawn. Gellid cael ymglyfreitha ynghylch costau yn sgîl hyn hefyd.
  - Mae pwerau gan y llys eisoes i ddyfarnu costau mewn amgylchiadau eithriadol a dyma'r cydbwysedd cywir. Byddai newid yn anghydbwyso'r broses er anfantais i'r hawlydd. Beth bynnag, mae eisoes yn bosibl i'r diffynnydd wneud cais am gostau mewn gwrandawriad caniatâd llafar yn erbyn hawlydd aflwyddiannus.
  - Amcan y diwygiadau hyn yw ei gwneud yn rhy ddrud i hawlwr ddod ag achos, yn enwedig o'u hystyried ochr yn ochr â diwygiadau blaenorol a chynigion ynghylch cymorth cyfreithiol. Mae ystyriaethau'n codi ynghylch mynediad at gyfiawnder a threfn y gyfraith.
  - Mae angen aros i weld beth fydd effaith diwygiadau blaenorol fel dileu'r hawl i gael gwrandawriad caniatâd llafar mewn achosion y mae Barnwr wedi penderfynu eu bod yn Hollol Annheilwng ar sail papurau, a chyflwyno ffi am wrandawriad caniatâd llafar.
  - Byddai angen rhesymau cryf dros ymadael â'r egwyddorion presennol ond nid oes tystiolaeth i gyfiawnhau newid nac i ddangos a yw presenoldeb y diffynnydd yn gymorth i'r llys fel arfer.
  - Mae nifer yr achosion sy'n llwyddo mewn gwrandawriad caniatâd llafar yn isel ond mae nifer y ceisiadau'n uchel: mae hyn yn awgrymu bod hawlwr yn gwneud cais hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd o lwyddo'n fach. Er nad yw'r diffynnydd yn gorfod bod yn bresennol, mae arno angen diogelu ei fuddiannau a gall ysgwyddo costau wrth wneud hynny.

- Bydd hyn yn atal hawliadau gwan sy'n annhebygol o gael caniatâd a bydd yn helpu i arbed amser y llys a lleihau'r baich ar ddiffnyddion.
- Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod caniatâd yn cael ei adnewyddu mewn gwrandawriad llafar beth bynnag yw teilyngdod yr achos heb ofn costau, felly mae'n bosibl y bydd hyn o gymorth yn y sefyllfa honno.
- Gwelir bod llysoedd yn gwrthod gwneud gorchmynion costau mewn gwrandawriadau caniatâd llafar gan ddiystyru'r ffaith bod cyrff cyhoeddus yn gorfod gwario arian cyhoeddus ar amddiffyn mewn achos a all fod wedi'i seilio ar hawliad annheilwng.

## Gorchmynion Costau a Wastraffwyd

### *Cwestiynau*

**Cwestiwn 22: Sut y byddai modd newid y dull o wneud gorchmynion costau a wastraffwyd fel eu bod yn cael eu hystyried ar gyfer ystod ehangach o ymddygiad? Beth yn eich barn chi fyddai prawf priodol ar gyfer gwneud gorchmynion costau a wastraffwyd yn erbyn cynrychiolydd cyfreithiol?**

**Cwestiwn 23: Sut y byddai'n bosibl symleiddio'r broses o wneud gorchmynion costau a wastraffwyd?**

**Cwestiwn 24: A ddylid codi ffi i gwrdd â chost unrhyw wrandawriad llafar ar gyfer gorchmynion costau a wastraffwyd, ac a ddylai'r ffi honno ddibynnu ar y cais yn llwyddo?**

**Cwestiwn 25: Pa sgôp sydd i gymhwyso unrhyw newid a wneir mewn gorchmynion costau a wastraffwyd at fathau eraill o achosion ar wahân i adolygiadau barnwrol? Rhowch fanylion am unrhyw broblemau ymarferol a allai godi.**

### *Crynodeb*

122. Gofynnodd y Llywodraeth am sylwadau ynghylch a ddylid newid y ffordd bresennol o ddelio â'r Gorchmynion Costau a Wastraffwyd (GCW) er mwyn cwmparu mwy o fathau o ymddygiad, a/neu a ddylid symleiddio proses y GCW. Gofynnwyd hefyd yn yr ymgynghoriad a ddylid codi ffi i gwrdd â chostau unrhyw wrandawriad llafar ar gyfer GCW.
123. O'r cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 145 o ymatebwyr wedi ateb cwestiynau am y GCW. Roedd 7 wedi ymateb yn gadarnhaol, ac roedd 6 ymatebydd wedi cynnig sylwadau cymysg o blaid ac yn erbyn. Fodd bynnag, roedd 132 o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion.
124. Teimlai nifer o ymatebwyr fod y prawf presennol yn briodol a bod y Llywodraeth wedi methu â chyflwyno dadl berswadiol o blaid newid. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod yr awgrym am gael prawf ehangach ar gyfer y GCW yn anwybyddu'r ffaith mai penderfyniad y cleient yn y pen draw yw a fydd yn mynd ymlaen i wneud yr hawliad neu beidio. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig, nododd nifer o ymatebwyr y dylid asesu effaith y newidiadau mewn ffioedd a gyflwynwyd yn gynharach eleni cyn diwygio ffioedd ymhellach.
125. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:
  - Nad oes dadl ddigon cryf o blaid newid y dull presennol o wneud GCW.

- Bod perygl y byddai prawf ehangach yn cymell cynrychiolwyr cyfreithiol i beidio ag ymgymryd ag achosion anodd ond pwysig.
- Mai rôl y cyfreithiwr yw cynghori'r cleient ynghylch teilyngdod yr achos, ond mai'r cleient a fydd yn penderfynu symud ymlaen i wneud yr hawliad neu beidio.
- Y byddai angen yn aml i'r llys ystyried cyngor a roddwyd i'r cleient o dan fraint broffesiynol gyfreithiol. Dim ond os byddai'r cleient yn ildio'r fraint honno y gellid datgelu'r cyngor hwn, ac anaml y byddai o fantais i'r cleient wneud hynny.
- Ni ddylid rhoi cosb ariannol i gynrychiolwyr cyfreithiol am eu hamddiffyn eu hunain yn erbyn GCW mewn gwrandawriad llafar.
- Dylid asesu effaith diwygiadau blaenorol ar ffioedd cyn ystyried cymryd camau pellach.

## Gorchmynion Gwarchod Costau

### *Cwestiynau*

**Cwestiwn 26:** Beth yw eich barn ynghylch a fyddai'n briodol amodi na fydd Gorchmynion Gwarchod Costau ar gael mewn unrhyw achos lle y mae budd preifat neu unigol, pa un a yw'r achos er lles ehangach y cyhoedd neu beidio?

**Cwestiwn 27:** Sut y byddai modd addasu'r egwyddorion ar gyfer gwneud Gorchmyn Gwarchod Costau i sicrhau cydbwysedd gwell (a) rhwng y partion yn yr achos, a (b) rhwng rhoi mynediad i'r llysoedd a buddiannau'r trethdalwr?

**Cwestiwn 28:** Beth yw eich barn am y cynigion i roi mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n ariannu'r achos wrth ystyried gwneud Gorchmyn Gwarchod Costau?

**Cwestiwn 29:** A ddylai fod rhagdybiaeth bod y llys yn ystyried croes-gap yn gwarchod atebolrwydd y diffynnydd i dalu costau wrth wneud Gorchmyn Gwarchod Costau o blaid yr hawlydd? A oes unrhyw amgylchiadau lle na fyddai'n briodol capio atebolrwydd costau'r diffynnydd?

**Cwestiwn 30:** A ddylid pennu uchafsymiau penodol ar groes-gap i'r hawlydd ac i'r diffynnydd? Os felly, faint fyddai swm addas?

### *Crynodeb*

126. Roedd y cynigion yn ymwneud â diddymu Gorchmynion Gwarchod Costau mewn unrhyw achos lle y mae buddiant unigol neu breifat pa un a yw'r achos er lles ehangach y cyhoedd neu beidio, neu addasu'r egwyddorion ar gyfer gwneud Gorchmyn Gwarchod Costau (GGC); mwy o eglurder ynghylch ariannu achosion, a'r rhagdybiaeth y bydd croes-gap ar atebolrwydd y diffynnydd, gydag uchafsymiau penodol.
127. O'r cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 186 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r ymatebion hynny, roedd 14 o blaid y cynigion yn gyffredinol, ond roedd 162 yn gwrthwynebu'r cynigion yn gyffredinol. Cafwyd sylwadau gan 10 o ymatebwyr a oedd wedi mynegi barn gymysg o blaid neu yn erbyn y cynigion.
128. Yn gyffredinol, nid oedd ymatebwyr o blaid diddymu'r GGC lle'r oedd buddiant preifat; nododd ymatebwyr fod yr adolygiad barnwrol yn ymwneud â chamwri cyhoeddus yn hytrach na hawliau preifat ac y byddai ei ddileu mewn achosion a oedd er lles y cyhoedd yn ymosodiad ar fynediad at gyfiawnder. Roedd hyn, ynghyd â'r cynigion ar gymhwyster, yn ymosodiad deuol a byddai'n gadael cyrff anllywodraethol/elusennau



heb y gallu i herio drwy achosion er lles y cyhoedd. Roedd mwy o gefnogaeth i'r cynnig ar fwy o eglurder ynghylch ariannu achosion, ond roedd ymatebwyr yn rhybuddio rhag y posibilrwydd o ymestyn y broses o drafod ceisiadau. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig ar gyflwyno croes-gap.

129. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

*Ar ddiddymu neu addasu'r GGC*

- Y brif ystyriaeth ar gyfer gwneud GGC yw a oes buddiant cyhoeddus. Dylid ystyried ffactorau eraill fel buddiant preifat ar ôl hynny. Nid yw buddiant preifat yn ffactor penderfynol ac mae gan lysoedd brofiad o wneud dyfarniadau o'r fath.
- Mae hyn yn rhwystr arall rhag gwneud hawliadau teilwng a'i amcan yw gwneud y broses yn rhy ddud i hawlwy, yn enwedig o ystyried diwygiadau blaenorol (fel y rhai mewn ffioedd llys) a chynigion ynghylch cymorth cyfreithiol. Gwrthwynebiad ar sail mynediad at gyfiawnder. Bydd y GGC yn dod yn bwysicach ar ôl newidiadau mewn cymorth cyfreithiol.
- O'i ystyried ochr yn ochr â chynigion ynghylch cymhwyster, mae hyn yn ymosodiad deul ar gyff anllywodraethol ac elusennau a fydd yn eu gadael mewn cyfyng-gyngor. Mae'n rhoi'r hawlydd – yn enwedig cyrff anllywodraethol ac elusennau – mewn sefyllfa lle na fydd yn gallu cael GGC os nad oes ganddo fuddiant (uniongyrchol) digonol i gael cymhwyster, ac fel arall.
- Byddai diddymu neu addasu'r GGC yn golygu y gall y weithrediaeth weithredu'n anghyfreithlon heb gael ei chosbi. Mae'n anghywir mewn egwyddor fod gweithrediaeth yn ymyrryd mewn costau/yn dileu'r GGC yn llwyr: mae hyn yn fater ar gyfer disgresiwn barnwrol.
- Mae'n fanteisiol i'r trethdalwr fod cyrff cyhoeddus yn cael eu dal yn atebol. Nid oes gwrthdaro buddiannau rhwng cael mynediad i'r llysoedd a sicrhau buddiannau trethdalwyr.
- Mae'r ddogfen ymgynghori'n sôn am 'gydbwyso', ond mae pethau'n symud yn rhy bell o blaid y diffynnydd. Mae diffyg cydbwysedd rhwng partion a'r anghydraddoldeb hwn a arweiniodd at ddatblygu'r GGC yn y lle cyntaf.
- Os gwneir GGC, nid yw hynny'n golygu bob amser na fydd yr hawlydd yn gorfod talu costau – bydd rhywfaint o atebolrwydd am gostau fel arfer a gall hynny achosi problemau ariannol.
- Byddai diddymu'r GGC yn gallu arwain at fwy o gostau yn y pen draw os na fydd achosion yn cael eu dwyn. Er enghraifft, hyd yn oed os bydd yr hawlydd yn colli, gellid defnyddio'r achos er lles y cyhoedd yn gyffredinol – i egluro'r gyfraith, atal penderfyniadau anghyfreithlon yn y dyfodol. Mae perygl hefyd o gael heriau lluosog gan y byddai hawlwy unigol yn cyflwyno heriau ar wahân.
- Gallai fod yn briodol addasu'r prawf buddiant cyhoeddus er mwyn diystyru'r posibilrwydd o wneud GGC lle y mae buddiant ariannol neu fasnachol.

*Ar dryloywder ariannol*

- Cafwyd ymatebion cymysg, gan fod ymatebwyr yn credu bod tryloywder yn bwysig ond bod y llysoedd yn ystyried materion o'r fath yn barod a bod eu pwerau'n ddigonol.
- Mae'n bwysig sicrhau na fydd ymchwil i faterion ariannol yn ymestyn proses y ceisiadau'n rhy hir.

- Dylai'r ymchwil ariannol fod ynghylch maint yr uchafswm yn hytrach nag a ddylid gwneud GGC yn y lle cyntaf.

*Ar groes-gapiau (cyfyngu atebolrwydd y diffynnydd i dalu costau'r hawlydd)*

- Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y llysoedd yn ystyried materion o'r fath yn barod ac nad oes arnynt angen pwerau newydd.
- Mae pwrpas gwahanol i'r croes-gap: diogelu'r diffynnydd rhag codi costau afresymol gan yr hawlydd. Byddai croes-gap yn newid swyddogaeth y GGC yn sylweddol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn amau a yw'n briodol diogelu diffynnydd sy'n gorff cyhoeddus rhag costau os cafwyd ei fod wedi gweithredu'n anghyfreithlon.
- Byddai croes-gap yn gallu effeithio ar allu'r hawlydd i ddod o hyd i gynrychiolydd cyfreithiol. Mae mwy o arian gan ddiffynnyddion, felly gallant ddefnyddio cyfreithwyr o'u dewis gan eu bod yn gallu cwrdd â chostau sy'n uwch na therfyn y GGC, ond ni all hawlwr wneud hynny. Ni ddylid gosod croes-gapiau ar lefel sy'n peri bod Cytundebau Ffi Amodol yn anymarferol.
- Byddai rhagdybiaeth o blaid rhoi croes-gap ar gyfer awdurdodau lleol yn fanteisiol. Mae llysoedd yn tueddu i anghofio bod mwy o bwysau ar gyllid awdurdodau lleol gan fod eu cyllidebau'n llai. Mae hyn yn golygu nid yn unig fod llai o arian ar gael ar gyfer ymgyfreitha, ond hefyd ei bod yn fwy tebygol y bydd achosion am adolygiadau barnwrol gan y bydd angen tynnu gwasanaethau'n ôl i gwrdd â'r costau, a bydd hynny'n cael ei herio.
- Nid oedd fawr o gefnogaeth i'r cynnig i osod uchafsymiau penodol gan y bydd amgylchiadau'r hawlydd a maint y cap yn amrywio rhwng achosion. Os bydd uchafsymiau penodol yn cael eu cyflwyno, dylai atebolrwydd yr hawlydd fod yn llai. Mae'n bosibl y byddai gosod symiau penodol yn creu gormod o rwystrau a byddant yn newid dros amser beth bynnag.

## Partïon sy'n Ymyrryd

### *Cwestiynau*

**Cwestiwn 31: A ddylai trydydd partïon sy'n dewis ymyrryd mewn hawliadau adolygiad barnwrol fod yn gyfrifol mewn egwyddor am eu costau cyfreithiol eu hunain, fel na ddylent fel rheol fod yn gallu hawlio'r costau hynny naill ai gan yr hawlydd neu'r diffynnydd?**

**Cwestiwn 32: A ddylai trydydd partïon sy'n dewis ymyrryd mewn hawliadau barnwrol ac sy'n achosi costau ychwanegol sylweddol i'r partïon presennol fod yn gyfrifol fel arfer am y costau ychwanegol hynny?**

### *Crynodeb*

130. Cynigiodd y Llywodraeth y dylai trydydd partïon sy'n dewis ymyrryd mewn achosion adolygiad barnwrol fod yn gyfrifol am eu costau eu hunain ac unrhyw gostau y maent yn eu hachosi i'r partïon presennol. O'r cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 169 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hynny, roedd 23 o blaid y cynnig a 122 yn erbyn. Roedd 24 o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ond wedi mynegi barn gymysg o blaid neu yn erbyn y cynigion.

131. Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod partïon sy'n ymyrryd yn talu eu costau eu hunain yn barod. Nid oedd fawr o gefnogaeth i'r cynnig bod partïon sy'n ymyrryd yn

talau costau ychwanegol, ac roedd ymatebwyr yn dadlau bod hyn yn fater ar gyfer disgrisiwn barnwrol – mae llysoedd yn rheoli'r broses yn dda eisoes a gallant elwa o'r arbenigedd y mae partïon sy'n ymyrryd yn ei gynnig.

132. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

- Bod partïon sy'n ymyrryd yn talu eu costau eu hunain yn barod. Anaml y ceir ymyrryd mewn achosion, ond bydd yn digwydd er lles y cyhoedd felly ni ddylid defnyddio gorchmynion costau i atal ymyriadau.
- Bydd y llys a'r partïon yn elwa o ymyriadau gan arbenigwyr, a bydd hyn yn gwella penderfyniadau. Gall hyn olygu llai o gostau yn y pen draw.
- Rhaid i lysoedd gydsynio i dderbyn ymyriad, felly gallant reoli'r broses yn barod ac maent hefyd yn cael defnyddio eu pwerau presennol ar gyfer rheoli achosion. Mae gan lysoedd brofiad o farnu pryd y mae ymyriad yn ddiangen ac yn amhriodol a byddant yn gwneud gorchmynion costau yn ôl yr angen.
- Bydd y Llywodraeth yn ymyrryd yn aml.

## Partïon Allanol

### *Cwestiwn*

**Cwestiwn 33: A ddylai fod yn ofynnol i hawlwr ddarparu gwybodaeth am sut y mae eu hachos yn cael ei ariannu? A ddylid rhoi mwy o bwerau i'r llys i ddyfarnu costau yn erbyn partïon allanol? A ydych yn gweld unrhyw drafferthion ymarferol gyda hyn, a sut y byddai modd datrys y trafferthion hynny?**

### *Crynodeb*

133. Roedd y Llywodraeth wedi cynnig ei gwneud yn ofynnol bod hawlwr yn darparu gwybodaeth am y modd y mae'r ymgyfreitha wedi'i ariannu. O'r cyfanswm o 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 118 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. O'r ymatebwyr hynny, roedd 30 o blaid y cynigion a 73 yn erbyn. Cafwyd sylwadau gan 15 o ymatebwyr a oedd yn mynegi barn gymysg o blaid neu yn erbyn y cynigion.

134. Roedd yr ymatebion yn gymysg – roedd rhai ymatebwyr yn credu nad oedd angen y newid gan fod digon o bwerau gan y llysoedd ac na ddylai partïon orfod darparu gwybodaeth ychwanegol. Cafwyd cefnogaeth gan rai, gan gynnwys yr uwch farnwriaeth, i'r cynnig am ddarparu mwy o wybodaeth am y ffordd y mae ymgyfreitha wedi'i ariannu.

135. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

- Bod pwerau gan y llysoedd eisoes i ddyfarnu costau yn erbyn partïon allanol a bod ganddynt brofiad o ymchwilio i faterion ariannol. Nid oes angen pwerau ychwanegol.
- Mae'r uwch farnwriaeth o blaid cael mwy o dryloywder ynghylch ariannu hawlwr gan y bydd hyn yn helpu'r llys i benderfynu a fydd yn gwneud gorchmynion costau yn erbyn parti allanol. Fodd bynnag, dylai llysoedd gadw disgrisiwn llwyr ar gyfer gwneud gorchmynion costau.
- Byddai anawsterau ymarferol wrth benderfynu pa bryd yr oedd gwybodaeth i gael ei datgelu i'r llysoedd, a faint o wybodaeth, a'r ffordd o ddarparu'r wybodaeth hon.

- Gallai'r cynnig beri bod llysoedd yn gorfod cynnal ymchwiliad fforensig i gywirdeb y wybodaeth a roddwyd. Gallai anawsterau godi wrth gasglu costau os bydd gorchymyn yn cwmpasu grŵp mawr o bobl sydd heb ei ddiffinio'n glir a gyfrannodd arian i'r elusen/grŵp buddiant.

## Tystiolaeth ac Enghreifftiau o Orchmynion Costau

### *Cwestiwn*

**Cwestiwn 34: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o orchmynion costau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys Gorchmynion Gwarchod Costau, Gorchmynion Costau a Wastraffwyd, a chostau yn erbyn trydydd partïon a phartïon sy'n ymyrryd?**

### *Crynodeb*

136. Ychydig o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn: o'r 325 o ymatebion, dim ond 26 a roddodd ateb, er bod rhai ymatebwyr wedi cyfeirio at enghreifftiau o orchmynion costau yn eu hatebion i gwestiynau eraill yn y bennod hon. Lle y rhoddwyd ateb, roedd ymatebwyr wedi cyfeirio at enghreifftiau o orchmynion costau neu bartïon a oedd wedi ymyrryd mewn achosion y buont yn gysylltiedig â nhw, neu wedi cyfeirio at y brif gyfraith achosion a oedd yn egluro'r egwyddorion ar gyfer dyfarnu gorchymyn costau penodol.
137. Wrth ateb y cwestiwn hwn, ac wrth ateb cwestiynau eraill yn y bennod ar Gydbwyso Cymhellion Ariannol, roedd rhai ymatebwyr wedi codi amheuan ynghylch y sylfaen dystiolaeth ar gyfer diwygio, gan ddadlau nad oedd y Llywodraeth wedi cyflwyno dystiolaeth i ddangos bod problem yn y maes hwn a bod newid yn angenrheidiol neu'n ddymunol.
138. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ymchwil a gynhaliwyd gan y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus a Phrifysgol Essex, a oedd wedi'i hariannu gan Sefydliad Nuffield. Drwy'r gwaith ymchwil hwn, ar gyfer y cyfnod o 20 mis rhwng Gorffennaf 2010 a Chwefror 2012, cafwyd mai dim ond mewn saith achos a benderfynwyd gan y Llys Gweinyddol mewn gwrandawriad terfynol yr oedd Gorchymyn Gwarchod Costau wedi'i wneud, ac mai dim ond tri a oedd wedi'u gwneud mewn achosion nad oeddent yn ymwneud â'r amgylchedd. Roedd y Gorchmynion Gwarchod Costau yn cynnwys dyfarndaliadau i gyfrff anllywodraethol fel Medical Justice a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodï Plant.<sup>13</sup>

## Pennod 8 – Neidio

### *Cwestiynau*

#### *Opsiwn 1 – Ymestyn yr Amgylchiadau Perthnasol*

**Cwestiwn 35: A ydych yn meddwl ei bod yn briodol ychwanegu at y meini prawf ar gyfer neidio fel bod apelïadau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, neu sy'n codi materion pwysig (er enghraifft, alltudïo person sy'n peri risg i ddiogelwch cenedlaethol, prosiect seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd, neu achos lle y byddai'r canlyniad yn effeithio ar nifer fawr o bobl) yn cael eu cyflymu?**

---

<sup>13</sup> Mae'r ymchwil hon wedi'i seilio ar holiaduron sydd wedi'u llenwi gan gyfreithwyr ac mae'n bosibl nad yw'n rhoi darlun llawn o'r sefyllfa.

**Cwestiwn 36: A oes mathau eraill o achosion y dylid cymhwyso trefniadau neidio ar eu cyfer?**

*Opsiwn 2 – Cydsynio*

**Cwestiwn 37: A ddylid dileu'r gofyniad bod yr holl bartïon yn cydsynio i gais i neidio?**

**Cwestiwn 38: A oes unrhyw risgiau i'r dull hwn, a sut y byddai modd eu lliniaru?**

*Opsiwn 3 – Ymestyn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd lle y gellid cychwyn apêl i neidio*

**Cwestiwn 39: A ddylai apeliadau o'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig, y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth ac o'r Uwch Dribiwnlys fod yn gallu neidio i'r Goruchaf Lys?**

**Cwestiwn 40: A ddylent fod yn destun yr un meini prawf (fel a ddiwygiwyd gan y cynigion uchod) ag apeliadau o'r Uchel Lys? A oes unrhyw feini prawf eraill y dylid eu cymhwyso at yr achosion hyn?**

**Cwestiwn 41: Os bydd y Llywodraeth yn gweithredu unrhyw un o'r opsiynau ar gyfer diwygio apeliadau neidio, a ddylid cymhwyso'r newidiadau hynny at bob achos sifil?**

*Crynodeb*

139. Gofynnodd y Llywodraeth am sylwadau ynghylch ehangu cwmpas apelau 'neidio' (achosion sy'n symud yn syth o lys y gwrandawriad cyntaf i'r Goruchaf Lys) er mwyn caniatáu i achosion gyrraedd y Goruchaf Lys yn gynt os mai yno y byddant yn terfynu. Roedd y ddogfen ymgynghori'n awgrymu tri newid yn y dull presennol o neidio: caniatáu i achos neidio ymlaen am fod goblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd ynddo; dileu'r gofyniad am gydsyniad yr holl bartïon; ac ymestyn y caniatâd i neidio i gynnwys yr Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth a'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.
140. O'r 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 116 o ymatebwyr wedi ateb rhai neu'r cwbl o'r cwestiynau am neidio. Roedd 51 o ymatebwyr o blaid yr holl gynigion ar neidio, ac roedd 20 a oedd yn gwrthwynebu pob un ohonynt. Roedd 45 o ymatebwyr yn cefnogi rhai, ond nid y cwbl, o'r cynigion neu heb ddatgan barn glir.
141. Roedd nifer o ymatebwyr yn derbyn yr egwyddor o anfon achosion priodol yn gynt i'r Goruchaf Lys. Nododd rhai bod perygl i'r Goruchaf Lys gan ei orlwytho gan achosion ychwanegol a cholli'r fantais o ystyriaeth i'r achos gan y Llys Apêl.
142. O ran y cynigion penodol, roedd nifer o ymatebwyr o blaid y newidiadau arfaethedig i sicrhau bod achosion priodol yn cyrraedd y Goruchaf Lys yn gynt. Roedd rhai'n gweld manteision mewn ymestyn y cyfle i achosion neidio ymlaen yn bellach na'r hyn a gynigir. Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r newidiadau hyn. Rhai o'r pryderon penodol a nodwyd oedd bod y meini prawf ehangach yn rhy annelwig, y byddai dileu'r angen am gydsynio'n tanseilio hawliau apelio, ac na ddylai neidio gael ei ymestyn i'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.

143. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

*Pwyntiau cyffredinol*

- Ei bod yn iawn bod achosion priodol yn cael eu hanfon i'r Goruchaf Lys yn gynt gan y byddai hyn yn arbed costau ac amser ac yn hyrwyddo cyfiawnder, er bod rhai ymatebwyr wedi rhybuddio na ddylai hyn fynd yn arfer rheolaidd.
- Dylai'r newidiadau fod yn gymwys i bob apêl sifil.
- Bod perygl o orlwytho'r Goruchaf Lys ag achosion – mae'n bwysig ei fod yn cadw disgresiwn i wrthod caniatâd i apêl gael neidio.
- Mae'r Goruchaf Lys yn elwa o ystyriaeth i achosion gan y Llys Apêl a'i rôl mewn mireinio dadleuon a phrofi ffeithiau.
- Os bydd y Goruchaf Lys yn gwrthod caniatâd i apêl gael neidio, dylai'r apelydd gadw'r hawl i ofyn am ganiatâd i apelio i'r Llys Apêl.
- Roedd rhai ymatebwyr yn amau a oedd tystiolaeth yn dangos bod problem, gan ddadlau bod y llysoedd yn gwneud cryn ymdrech i gyflymu achosion eisoes; mae achosion o bwysigrwydd cenedlaethol yn debygol o fodloni'r meini prawf beth bynnag.
- Gall fod yn anodd gweld yn y gwrandawriad cyntaf a fydd achos yn terfynu yn y Goruchaf Lys.
- Nid yw llafurio drwy dystiolaeth o lys y gwrandawriad cyntaf yn ffordd dda o ddefnyddio amser y Goruchaf Lys.
- Rhaid diogelu hawlwr rhag costau ychwanegol.
- Roedd rhai ymatebwyr wedi cynnig awgrymiadau am newidiadau ychwanegol mewn gweithdrefnau, gan gynnwys bod y Goruchaf Lys yn penderfynu ar gais o fewn saith diwrnod a bod rhywfaint o hyblygrwydd i newid penderfyniad i apêl gael neidio ymlaen os bydd yr amgylchiadau'n newid.

*Opsiwn 1 – Ymestyn yr Amgylchiadau Perthnasol*

- Dylid ehangu'r meini prawf yn unol â'r cynnig fel bod achos sy'n sicr o gyrraedd y Goruchaf Lys yn gallu neidio ymlaen.
- Dylid eu hymestyn i gynnwys achosion lle na fyddai mantais sylweddol o ofyn barn y Llys Apêl, ac achosion sy'n effeithio ar nifer mawr o bobl, sydd o bwysigrwydd cyffredinol i'r cyhoedd, sy'n codi materion cyfreithiol newydd, a rhai lle y mae tystiolaeth o ymarfer amrywiol, lle y byddai'n arbed arian cyhoeddus, neu lle y byddai oedi o anfantais fawr i'r partion, er enghraifft, drwy eu cadw'n hirach yn y ddalfa.
- Dylai barnwyr gael disgresiwn eang ac ni ddylai'r ddeddfwriaeth fod yn rhy gyfarwyddol.
- Mae'n ymddangos bod y meini prawf ehangach yn adlewyrchu'r achosion sy'n bwysig i'r Llywodraeth, ond nid o reidrwydd i'r cyhoedd.
- Mae'r meini prawf ehangach yn annelwig ac yn amwys – gellid cael ymglyfreitha yn eu sgîl a cheir achosion bob amser na fyddant yn dod o dan ddiffiniad penodol.
- Gellid cael haeru ynghylch y meini prawf ehangach yn yr achosion perthnasol ac, oherwydd hynny, ni fyddant yn feini prawf addas ar gyfer caniatáu i apelau neidio ymlaen.

### *Opsiwn 2 – Cydsynio*

- Mae'n briodol bod y penderfyniad ynghylch caniatáu i apêl neidio ymlaen yn cael ei adael i'r llys ac nid i'r partion.
- Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar hawliau apelio gan y byddai'r achosion yn terfynu yn y Goruchaf Lys beth bynnag.
- Ni ddylid dileu'r gofyniad am gydsynio gan ei fod yn bwysig o ran peidio â chyfyngu ar hawliau apelio.
- Os bydd y gofyniad am gydsynio'n cael ei ddileu, dylid darparu ar gyfer cofnodi barn yr holl bartïon neu dylid cael hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i ganiatáu i achos neidio ymlaen mewn gwrandawriad llafar.

### *Opsiwn 3 – Ymestyn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd lle y gellid cychwyn apêl i neidio*

- Dylid ymestyn y cyfle i achos gael neidio ymlaen i gynnwys yr Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth a'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig – ni ddylid eu trin yn wahanol i'r Uchel Lys.
- Dylent ddod o dan yr un meini prawf ag apelau o'r Uchel Lys.
- Dylai achos gael neidio ymlaen o'r Llys Sirol hefyd.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch ymestyn y cyfle i achos gael neidio ymlaen i gynnwys y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig gan ei fod yn dribiwnlys gwrandawriad cyntaf ac yn gwneud canfyddiadau ffeithiol – byddai'r Goruchaf Lys yn elwa o ystyriaeth i achosion gan y Llys Apêl.

## **Effeithiau ar Gydraddoldeb**

### *Cwestiwn*

**Cwestiwn 43: O'ch profiad chi, a oes unrhyw grwpiau o unigolion gyda nodweddion a warchodir y gallai'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn effeithio'n arbennig arnynt, naill ai er gwell neu er gwaeth?**

### *Crynodeb*

144. Yn y ddogfen ymgynghori gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith neilltuol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, er gwell neu er gwaeth.
145. O'r 325 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 211 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn er bod rhai ymatebwyr wedi cynnwys sylwadau am effeithiau ar gydraddoldeb yn eu hymateb i gynigion penodol. O'r rheini a atebodd y cwestiwn, roedd bron pob un yn credu y byddai'r cynnig/cynigion yn cael effaith negyddol anghymesur ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r Llywodraeth wedi rhoi digon o dystiolaeth i ddangos na fydd y cynigion yn cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, ac y bydd yn rhaid iddi wneud hynny cyn gweithredu ar unrhyw un o'r cynigion hyn. Roedd rhai'n dadlau bod y cynigion yn wahaniaethol o'u hanfod.
146. Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn bod y ddogfen ymgynghori wedi rhoi disgrifiad cywir o'r effeithiau posibl neu'n credu, er bod perygl o effaith wahaniaethol, y byddai'r llys yn lliniaru'r perygl hwn drwy sicrhau bod achosion dadleuadwy yn cael eu gwrandao.

147. Y prif ddadleuon a safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

*Pwyntiau cyffredinol*

- Roedd ymatebwyr yn credu y byddai'r cynigion, gyda'i gilydd, yn cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig gan fod y grwpiau hyn, at ei gilydd, yn rhyngweithio'n fwy â gwasanaethau'r wladwriaeth ac felly'n dibynnu i fwy o raddau ar yr adolygiad barnwrol. Byddai'r cynigion yn bygwth eu gallu i gael cyfiawnder ac i herio penderfyniadau anghyfreithlon sy'n effeithio arnynt.
- Yn benodol, nododd ymatebwyr fod y cynigion yn debygol o gael effaith anghymesur ar y grwpiau canlynol sydd â nodweddion gwarchoddedig:
  - Plant, gan gynnwys plant sydd ag anawsterau dysgu a phlant sy'n fewnfudwyr ac yn geiswyr lloches. (Nodwyd bod data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos bod 23% o'r achosion am adolygiad barnwrol yn cael eu dwyn gan bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed er nad ydynt ond yn 11% o boblogaeth Cymru a Lloegr.)
  - Pobl hŷn.
  - Menywod sy'n agored i niwed.
  - Pobl sydd ag anabledd, gan gynnwys problemau iechyd meddwl.
  - Pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.
  - Pobl sydd â chredoau crefyddol.
  - Cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
  - Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
- Yng nghyswllt y diffyg data am ddefnyddwyr llysoedd sydd â nodweddion gwarchoddedig, nodwyd bod rhywfaint o dystiolaeth ar gael am wahaniaethau o ran profiad yn y system cyfiawnder sifil sy'n dangos, am Gymru a Lloegr, fod pobl rhwng 18 a 24 oed a'r rheini sy'n 65 oed neu'n hŷn; pobl Asiaidd, pobl Dduon, pobl gymysg o ran hil neu bobl Tsieineaidd; a'r rheini sy'n Fwslimaidd, yn Fwdhaidd neu'n Hindŵaidd yn fwy tebygol na'r rheini mewn grwpiau eraill o roi'r gorau i weithredu neu wneud dim wrth wynebu problem o ran cyfiawnder sifil neu'n llai tebygol na grwpiau eraill o gael cyngor wrth wynebu problem o ran cyfiawnder sifil. (Er hynny, dylid nodi nad oedd yr ymchwil hon yn cynnwys adolygiadau barnwrol.)<sup>14</sup>

**Pwyntiau ynghylch cynigion penodol**

*Cynllunio a'r prawf hidlo caniatâd o dan adrannau 228 a 229 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

- Mae'r cynigion ar gynllunio'n debygol o gael effaith anghymesur ar Sipsiwn a Theithwyr gan y bydd mwy ohonynt ar gyfartaledd yn hawlwrwyr mewn heriau o dan adrannau 228 a 229 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- Nododd ymatebwyr fod hyn yn berthnasol i'r materion cynllunio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, gan dynnu sylw at y ffaith bod un o'r ddwy gŵyn lle'r oedd Pwyllgor Anabledd y Cenhedloedd Unedig wedi penderfynu o blaid ceiswyr yn ymwneud â phenderfyniad cynllunio.

---

<sup>14</sup> [www.equalityhumanrights.com/key-projects/our-measurement-framework/](http://www.equalityhumanrights.com/key-projects/our-measurement-framework/)



### *Cymhwyster*

- Nododd ymatebwyr y byddai'r cynigion ar gymhwyster yn cael effaith negyddol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig drwy atal cyrff anllywodraethol rhag gwneud hawliadau ar ran grwpiau yr oeddent yn eu cynrychioli e.e. plant, pobl ag anableddau, pobl sydd â chredoau crefyddol, etc.

### *Cymhellion ariannol*

- Roedd rhai ymatebwyr wedi nodi y bydd y cynigion yn rhwystro grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig (e.e. anabledd, rhywedd, ethnigrwydd) rhag cael cyfiawnder gan fod mwy ohonynt ar gyfartaledd mewn grwpiau incwm isel.
- Dadleuwyd y bydd y cynigion ar bartïon sy'n ymyrryd yn cael effaith negyddol ar grwpiau sy'n agored i niwed sy'n dibynnu ar ymyrraeth mewn achosion gan gyrrff anllywodraethol ac elusennau.

### *Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC)*

- Roedd ymatebwyr o'r farn bod y cynigion yn y maes hwn yn debygol o gael mwy o effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig gan fod anghydfodau ynghylch DCSC yn ymwneud yn ddieithriad ag effaith penderfyniadau gan awdurdodau lleol ar y grwpiau hyn.

## Atodiad B: Talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol

148. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig mai dim ond os bydd y llys yn rhoi caniatâd y bydd darparwyr yn cael eu talu am waith ar y cais am ganiatâd (gan gynnwys gofyn am ailystyried y cais mewn gwrandawriad, y gwrandawriad llafar neu apêl am ganiatâd i'r Llys Apêl). Roeddem hefyd yn cynnig y bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn cael disgresiwn i dalu i ddarparwyr mewn rhai achosion sy'n dod i ben cyn y penderfyniad ar ganiatâd.
149. Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori mai dim ond i achosion sydd wedi'u cychwyn y byddai'r cynnig yn gymwys. Byddai cymorth cyfreithiol yn parhau i gael ei dalu fel y gwneir yn awr am gamau cyntaf yr achos, i ymchwilio i'r rhagolygon a chryfder yr hawliad (gan gynnwys cyngor gan Gwnsler ynghylch teilyngdod yr hawliad) ac i ohebu cyn dod ag achos er mwyn osgoi achosion o dan y Protocol Cyn-weithredu ar gyfer Adolygiadau Barnwrol. Hefyd, ni fyddai perygl o golli tâl am waith ar gais am ymwared interim yn unol â Rhan 25 o'r Rheolau Gweithdrefnau Sifil, pa un a gaiff y darparwr ei dalu yn y pen draw am yr hawliad terfynol am adolygiad barnwrol neu beidio.
150. Byddai tâl yn cael ei roi o hyd am wariadau rhesymol, fel ffioedd arbenigwyr a ffioedd llys (ond nid ffioedd Cwnsler), sy'n codi wrth baratoi cais am ganiatâd, hyd yn oed os na fydd y llys yn rhoi caniatâd.

### Y prif faterion a godwyd<sup>15</sup>

#### *Cynaliadwyedd y farchnad a mynediad at gyfiawnder*

151. Roedd nifer mawr o ymatebwyr (gan gynnwys yr uwch farnwriaeth, darparwyr cymorth cyfreithiol a chyrrff cynrychiadol) yn dadlau na fydd darparwyr yn gallu ysgwyddo'r ansicrwydd a'r risg ariannol o weithio ar gais am ganiatâd, hyd yn oed ar ôl cyflwyno dull talu disgresiynol. Roeddent yn dadlau y byddai hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y darparwyr sy'n barod i gyflawni gwaith cyfraith gyhoeddus ac at danseilio mynediad at gyfiawnder. Dadleuwyd y bydd hyn yn golygu na fydd cleient yn gallu dod o hyd i gynrychiolaeth a byddai hyn, yn eu barn nhw, yn groes i Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Erthygl 47 o Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop a Chonfensiwn Aarhus ar yr Hawl i Weld Gwybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol. Awgrymodd ymatebwyr y bydd hyn yn effeithio'n neilltuoel ar grwpiau sy'n agored i niwed a phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, gan fod mwy o angen ar y bobl hynny am gymorth cyfreithiol ar gyfer adolygiadau barnwrol ac am fod mwy o ansicrwydd ynghylch eu hachosion wrth eu cychwyn.
152. Roedd rhai o'r darparwyr a ymatebodd yn dadlau eu bod wedi modelu'r effaith ariannol debygol ar eu cwmnïau o'r ansicrwydd cynyddol y byddent yn ei wynebu o

---

<sup>15</sup> Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yn eu sylwadau at yr ymgynghoriad ar *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: cyflwyno system mwy credadwy ac effeithiol* gan gyfeirio at y pwyntiau hynny. Trafodwyd y dadleuon hynny ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwnnw yn y papur ymateb *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: y camau nesaf*.

dan y cynnig ac wedi dod i'r casgliad na fyddai'n ymarferol iddynt barhau i gymryd gwaith ar adolygiadau barnwrol. Roedd eraill yn dadlau y byddent yn debygol o gymhwyso trothwy uwch na'r un sydd yn y prawf ar deilyngdod achosion yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) 2013, ac yn ymgymryd â'r achosion cryfaf yn unig.

*Prawf ar deilyngdod achosion*

153. Dadleuai rhai ymatebwyr fod y prawf ar deilyngdod achosion yn cael ei ddefnyddio a bod y darparwr a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) yn ystyried bryd hynny beth yw'r rhagolygon am lwyddiant, felly nad oes angen rhoi mwy o gymhelliad i'r darparwr ystyried cryfder yr achos yn ofalus cyn ei gychwyn. Roedd pryder hefyd ynghylch cymhwyso'r meini prawf teilyngdod a'r meini prawf disgrisiynol gan yr ACC. Os bydd yr ACC wedi cymhwyso'r prawf cyntaf ar y dechrau, roedd rhai ymatebwyr yn amau a fyddai'r ACC yn gallu barnu'n gytbwys gan ystyried holl amgylchiadau'r achos ar ddiwedd y broses.

*Ystyriaethau cyffredinol eraill ynghylch egwyddor y cynnig*

154. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod y cynnig yn dangos camddealltwriaeth o natur yr adolygiad barnwrol a'i fod yn anghymesur, yn enwedig mewn achosion lle y gwrthodir caniatâd ond lle y mae mantais sylweddol i'r cleient, ac mewn achosion sy'n deilwng ond sy'n cael eu setlo am reswm da, er enghraifft, am fod yr hawliad o ddiddordeb academaidd yn unig o ganlyniad i ddigwyddiad allanol.

155. Roedd nifer mawr o ymatebwyr wedi mynegi pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar y darparwr gan fod llawer o'r paratoi a'r gwaith ar gyfer yr adolygiad barnwrol yn digwydd ar ddechrau'r broses oherwydd yr angen i lwyddo yn y cam caniatâd. Roeddent hefyd yn bryderus y byddai'r cynnig yn peryglu nid yn unig y gwaith ar baratoi'r cais am ganiatâd, ond y byddai hefyd yn effeithio ar waith y gwrandawriad llafar a'r apêl; ar geisio dyfarniad am gostau yn erbyn yr ochr arall; ac ar y gwaith ar wrandawriad caniatâd cyfun.

*Disgrisiwn a meini prawf yr ACC*

156. Er bod ymatebwyr yn cydnabod bod y system arfaethedig ar gyfer talu disgrisiynol yn ceisio ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch y cynnig gwreiddiol, roeddent yn dadlau mai ymateb rhannol yn unig ydyw a'i fod yn creu mwy o ansicrwydd i ddarparwyr. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y cynllun Cyllid Eithriadol a lefel isel y grantiau a welwyd ar ôl cyflwyno LASPO, gan fynnu bod hyn yn awgrymu na fyddai llawer o le i ymddiried mewn system talu disgrisiynol ar gyfer gwaith ar adolygiadau barnwrol sy'n cael ei phennu gan yr ACC.

157. Awgrymwyd mewn nifer o ymatebion na ddylai'r meini prawf fod yn hollgynhwysol oherwydd, yn gyntaf, ni all rhestr hollgynhwysol ddarparu ar gyfer yr holl amgylchiadau lle y gall taliad fod yn briodol, gan greu'r posibilrwydd o anghyfiawnder, ac, yn ail, byddai rhestr hollgynhwysol yn llyffethair anghyfreithlon ar ddisgrisiwn. Dadleuai rhai ymatebwyr na fyddai'n gyfansoddiadol briodol bod yr ACC yn arfer disgrisiwn ar ran yr Arglwydd Ganghellor mewn achosion lle y gallai'r Arglwydd Ganghellor fod yn ddiffynnydd hefyd.

158. Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau y byddai'r disgrisiwn yn faich ychwanegol ar yr ACC ac ar y darparwr.

159. Dadleuwyd hefyd mewn nifer mawr o ymatebion y dylid cael hawl i apelio yn erbyn penderfyniad gan yr ACC, ac y dylai adolygiad gan banel annibynnol fod yn rhan o'r cynnig.
160. Roedd nifer mawr o ymatebwyr heb gynnwys sylwadau manwl am y meini prawf arfaethedig, er bod nifer ohonynt wedi awgrymu nad oes gwahaniaeth arwyddocaol rhyngddynt a'r materion y bydd y llys yn eu hasesu wrth ystyried costau, felly ni fyddent yn cynnig llawer o ddiogelwch ychwanegol i ddarparwyr o ran sicrhau bod taliadau ar gael o hyd ar gyfer achosion teilwng. Yn ogystal â hyn, roedd ymatebwyr yn dadlau'n benodol:
- Nad yw'r meini prawf yn ystyried y ffaith mai'r diffynnydd sydd yn y lle gorau i wybod pa mor gryf yw'r achos, ac y dylid ystyried ymddygiad yr hawlydd a'r diffynnydd yn yr achos.
  - Ei bod yn bosibl mai dim ond ar ôl cychwyn yr achos y bydd tystiolaeth newydd yn dod i'r golwg sy'n effeithio'n sylweddol ar deilyngdod yr achos (oddi wrth y diffynnydd, y cleient neu drydydd parti). Roedd ymatebwyr yn dadlau y dylai'r meini prawf sicrhau na fydd darparwyr yn cael eu hatal rhag derbyn tâl ar sail ffeithiau newydd nad oeddent yn eu gwybod neu na fyddai'n rhesymol disgwyl iddynt eu gwybod wrth gychwyn yr achos.
  - Yn yr un modd, mae rhagolygon achos yr aseswyd ei fod yn deilwng ar y dechrau yn gallu gwanhau oherwydd newid mewn amgylchiadau, newid yn y gyfraith (er enghraifft, penderfyniad newydd gan y Goruchaf Lys) neu weithredoedd trydydd parti. Gall achos droi'n un sydd o ddiddordeb academiaidd yn unig am yr un rhesymau. Mewn achosion o'r fath, os yw'r darparwr wedi cychwyn yr achos (a'i gwblhau) yn briodol, dylai gael ei dalu.
  - Yn ymarferol, na fydd yn bosibl i'r ACC benderfynu ar "ba mor debygol, i'w ystyried ar y pwynt y bydd y setliad yn cael ei wneud (neu pan ddaw'r achos i ben fel arall), yw i ganiatâd fod wedi cael ei roi pe bai'r cais wedi'i ystyried", ac y byddai gwneud hynny'n gostus ac yn ddi-fudd. Maent yn dadlau y byddai'r meini prawf yn golygu rhywfaint o ddarogan gan yr ACC.
  - Os yw'r diffynnydd yn setlo "heb dderbyn atebolrwydd", ei bod yn anodd i ddarparwyr ddangos gwir gymhelliad cyrff cyhoeddus ac y byddai'n anodd i'r ACC ymchwilio ymhellach i'r rhesymau sydd wedi'u datgan er mwyn gwneud asesiad priodol o'r rheswm dros setlo'r achos.
  - Y bydd diffynnyddion yn dadlau'n aml nad oes cysylltiad rhwng eu rheswm dros ddod i benderfyniad penodol a'r sail i hawliad yr hawlydd. Wrth roi pwys ar resymau neu gymhelliad honedig y diffynnydd dros setlo, bydd hynny'n rhoi mwy o anogaeth iddo ddweud ei fod wedi setlo ar sail bragmataidd yn hytrach na chyfaddef bod yr hawliad yn deilwng. Nid oedd yn gyfiawn bod hyn yn effeithio ar y penderfyniad i dalu'r darparwr neu beidio.
  - Os oedd diffynnydd yn gwrthwynebu gorchymyn costau, gallai ddweud ei fod wedi cyfaddawdu yn yr achos am resymau pragmataidd ac na ddylai dalu costau. Fodd bynnag, bydd y llysoedd yn edrych yn amheus iawn ar honiadau o'r fath a'r cwestiwn a ofynnir fel arfer yw a yw'r cleient wedi llwyddo (*R (Bahta) v SSHD* [2011] EWCA Civ 895).

#### *Effeithiau ehangach*

161. O ran yr effeithiau ehangach, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai'r cynnig yn arwain at gostau ar ben y rheini sydd wedi'u nodi yn yr asesiad o effaith, yn enwedig i

gyrff cyhoeddus a'r llysoedd, fel y ceir ymglyfreitha ynghylch costau yn sgil hynny os na chytunwyd ar gostau, mwy o ymglyfreithwyr drostynt eu hunain, a gwrandawiadau llafar ychwanegol. Roeddent yn dadlau nad oedd yr arbedion rhagamcanol i'r gronfa cymorth cyfreithiol o'u cymharu â'r costau a beichiau gweinyddol posibl (i'r ACC a chostau i'r system ehangach) yn cyfiawnhau'r cynnig hwn.

162. Dadleuai rhai ymatebwyr y byddai'r cynnig yn effeithio'n benodol ar ddarparwyr pobl dduon, pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chleientiaid sy'n agored i niwed (pobl ifanc, pobl anabl) y mae eu hachosion yn golygu'r risg fwyaf i ddarparwyr. Roeddent yn dadlau mai'r adolygiad barnwrol yw'r unig lwybr sydd ar gael yn aml i bobl sy'n agored i niwed sydd am herio penderfyniadau neu fethiannau cyrff cyhoeddus a'u bod yn pryderu ynghylch yr effaith neilltuol ar bobl anabl a'u gallu i gael cyfiawnder.
163. Nododd rhai ymatebwyr y byddai gweithredu'r cynnig ar ddiffygion gweithdrefnol yn y ddogfen ymgynghori yn golygu y bydd mwy o waith yn cael ei wneud ar fenter ac felly y bydd mwy o ansicrwydd wrth ymgymryd ag achos.

#### *Cynigion eraill*

164. Dadleuai rhai ymatebwyr y dylai tâl fod ar gael mewn rhai achosion lle y mae'r Barnwr wedi gwrthod caniatâd ac yn yr holl achosion sy'n cychwyn ond yn dod i ben cyn penderfyniad gan y llys (am ba reswm bynnag).
165. Roedd rhai ymatebwyr, a'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol (JEB) yn benodol, yn dadlau mai dim ond mewn achosion y mae'r llys wedi ardystio eu bod yn "hollol annheilwng" y dylid atal taliadau. Roedd y Bwrdd hefyd yn awgrymu y dylai'r farnwriaeth gael disgrisiwn i ganiatáu talu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion lle y gwrthodwyd caniatâd ond lle'r oedd yn rhesymol ceisio caniatâd.

## **Ymateb y Llywodraeth**

### *Cynaliadwyedd y farchnad a mynediad at gyfiawnder*

166. Mae'n anodd asesu i ba raddau y byddai darparwyr yn gwrthod ymgymryd ag achosion adolygiad barnwrol yn y dyfodol. Dadleuai nifer o ymatebwyr na fyddent yn gallu parhau i weithredu mewn achosion adolygiad barnwrol os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae'r effaith bosibl yn dibynnu ar lefel y risg ac ansicrwydd y byddai darparwyr yn ei hwynebu (neu'n canfod eu bod yn ei hwynebu) o beidio â derbyn tâl am achosion teilwng. Cyflwynwyd dadleuon tebyg mewn cysylltiad â diwygiadau eraill i gwmpas a thaliadau cymorth cyfreithiol sifil. Er hyn, mae niferoedd sylweddol o ddarparwyr wedi aros hyd yma yn y maes cyfraith sifil.
167. Er mwyn derbyn cymorth cyfreithiol am waith ar adolygiadau barnwrol, mae'n ofynnol bod y darparwyr yn dal contract cyfraith gyhoeddus neu gontract ar gyfer y maes cyfreithiol perthnasol. Nifer y darparwyr a oedd yn dal contract cyfraith gyhoeddus cyn 2010 oedd 43 ac, ar ôl tendro am gontractau yn 2010, cynigiwyd contractau i 103 o ddarparwyr ac roedd 82 yn dal contract erbyn Chwefror 2011.<sup>16</sup> Mae hyn yn awgrymu bod parodrwydd mawr wedi bod yn ddiweddar ymysg darparwyr i ymgymryd â gwaith cyfraith gyhoeddus o dan gontract. Ers Chwefror 2011 ni chafwyd fawr o newid yn nifer y darparwyr (80 o ddarparwyr yn Ionawr 2014) sy'n dal contract cyfraith gyhoeddus er gwaethaf y newidiadau diweddar mewn ffioedd. Er ei bod yn

---

<sup>16</sup> Mae'r ffigurau ar gyfer cwmnïau yn hytrach na swyddfeydd rhestr.

rhy fuan o hyd i asesu effaith y cwtogi ar ffioedd, mae hyn yn awgrymu bod parodrwydd o hyd ymysg darparwyr i ymgymryd â gwaith cyfraith gyhoeddus ar y lefelau tâl presennol (er gwaethaf y darogan cyn hynny y byddai darparwyr yn gadael y farchnad).

168. Gyda golwg ar y dadleuon y byddai darparwyr yn dueddol i gymhwyso trothwy ar gyfer rhagolygon am lwyddiant o fwy na 50% er mwyn lleihau'r risg y maent yn ei hwynebu, bydd darparwyr yn parhau i dderbyn tâl am eu gwaith cyn yr achos a bydd hyn yn eu helpu i ystyried teilyngdod yr achos yn drwyadl cyn ei gychwyn. Wedi i ddarparwyr ystyried teilyngdod yr achos, byddem yn disgwyl fel arfer iddynt fynd ymlaen i wneud hawliad os ydyn nhw a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi asesu bod rhagolygon am lwyddiant o 50% neu fwy, ar ôl asesu'r achosion yn briodol yn unol â'r prawf teilyngdod. Mae'r penderfyniad gan y Llywodraeth, ar ôl ymgynghori (gweler isod), i addasu'r meini prawf hefyd yn lleihau'r risg y disgwylir i'r darparwr ei hwynebu wrth gychwyn achos.
169. Felly nid ydym yn derbyn y bydd darparwyr yn gadael y farchnad nac y bydd nifer y darparwyr yn annigonol, gan arwain at wrthod mynediad at gyfiawnder, o ganlyniad i weithredu'r cynnig hwn. Credwn ei bod yn debygol y bydd digon o ddarparwyr o hyd a fydd yn ymgymryd â gwaith ar adolygiadau barnwrol, gan dderbyn achosion y maent yn eu hystyried yn deilwng. Mae'n briodol iddynt graffu'n fanwl ar hawliadau cyn gwneud cais am gyllid i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ac, mewn achosion lle y mae'r asiantaeth a'r darparwr yn derbyn bod yr achos yn deilwng, bydd y cleient yn cael ei gynrychioli o hyd (er y bydd y darparwr yn gweithredu ar fenter hyd at y penderfyniad ar ganiatâd). Mewn achos teilwng bydd y darparwr yn parhau i gael ei dalu, un ai drwy gostau oddi wrth y diffynnydd ar gyfraddau *inter partes*, neu ar gyfraddau cymorth cyfreithiol un ai am fod caniatâd yn cael ei roi yn yr achos neu am ei fod yn dod i ben cyn y cam caniatâd a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi penderfynu arfer ei disgresiwn o blaid y darparwr. Ar ôl ystyried y pwyntiau sydd wedi'u gwneud gan ymatebwyr, rydym wedi addasu'r meini prawf disgresiynol mewn sawl ffordd (gweler isod), a bydd hyn hefyd yn fodd i leddfu rhai o'r pryderon a fynegwyd gan ddarparwyr ac yn lleihau'r graddau y mae disgwyl iddynt weithredu ar fenter. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn derbyn y bydd y cynnig yn amharu ar fynediad at gyfiawnder na'i fod yn anghyfreithlon.

#### *Prawf teilyngdod*

170. Rydym yn credu y dylai cymorth cyfreithiol gael ei gyfeirio at achosion lle y mae'r angen mwyaf amdano ac na ddylid disgwyl i drethdalwyr ariannu achosion annheilwng. Credwn o hyd ei bod yn briodol cynnwys elfen o risg wedi'i seilio ar drothwy'r penderfyniad i ganiatáu hawliad neu beidio. Rydym yn nodi na fydd y tâl yn dibynnu ar lwyddiant yr hawliad yn y pen draw ond ar gyrraedd y trothwy ar gyfer caniatâd ar ôl trafod y materion a godwyd, a bod hwn yn drothwy is.
171. Wrth asesu teilyngdod achosion, bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn mynnu bod rhagolygon am lwyddiant o 50% o leiaf. Bydd nifer sylweddol o achosion yn llwyddo yn y prawf teilyngdod ond yn methu â chyrraedd y trothwy caniatâd. Felly credwn ei bod yn briodol cynnwys rheolaethau pellach mewn achosion o'r fath. Er y bydd yr asiantaeth yn asesu'r achos ar y dechrau, bydd yn cael ei harwain o reidrwydd gan asesiad y darparwr ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. Nododd ymgynghoreion fod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn gallu herio'r asesiad hwnnw, a'i bod yn gwneud hynny mewn rhai achosion ond, yn y pen draw, bydd yr asiantaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar y wybodaeth y mae'r darparwr yn ei chyflwyno wrth

gychwyn yr achos. Felly mae'n bwysig bod y darparwr yn cael ei gymell i wneud popeth yn ei allu i ystyried y rhagolygon am lwyddiant yn drwyadl.

*Ystyriaethau cyffredinol eraill ynghylch egwyddor y cynnig*

172. Nid ydym yn derbyn na ddylai'r cynnig roi gwrandawiadau cyfun mewn perygl. Credwn y gallai hyn roi cymhelliad i'w defnyddio lle nad oes cyfiawnhad dros wneud hynny a phe bai mwy o wrandawiadau'n cael eu gorchymyn, gallai hynny danseilio'r prawf hidlo caniatâd. Rydym hefyd yn credu y byddai'n arwain at roi darparwr a fethodd mewn gwrandawriad cyfun (sy'n cymryd mwy o amser yr holl bartion a'r llys) mewn sefyllfa well na darparwr a oedd wedi colli yn y cam caniatâd yn y ffordd arferol.
173. Er ein bod wedi gwrandao ar y pwyntiau sydd wedi'u gwneud, rydym yn credu o hyd mai dim ond os bydd y llys wedi rhoi caniatâd ar gyfer cais y dylai darparwyr gael eu talu am waith ar y cais am ganiatâd fel arfer. Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu y dylid cyflwyno disgrisiwn i ganiatáu i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) dalu darparwyr mewn rhai achosion sy'n dod i ben cyn y penderfyniad ar ganiatâd. Ar ôl ystyried sylwadau gan ymatebwyr, rydym wedi addasu'r ffactorau y bydd yr ACC yn eu hystyried yn yr achosion hynny er mwyn cadw cydbwysedd priodol rhwng dileu'r cymhelliad i gychwyn achosion gwan a thalu darparwyr mewn achosion a oedd wedi'u cychwyn yn briodol ond a oedd wedi dod i ben cyn y cam caniatâd am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth y darparwr.

*Disgrisiwn a ffactorau'r ACC*

174. Nid ydym yn derbyn y feirniadaeth o'r cynllun cyllid eithriadol nac y byddai'n amhriodol i'r ACC arfer y disgrisiwn hwn ar ran yr Arglwydd Ganghellor, gan gynnwys mewn achosion lle y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder neu un o'i hasiantaethau'n ddiffynnydd. Mae penderfyniadau ar dâl yn cael eu gwneud gan yr ACC ar hyn o bryd mewn achosion o'r fath, gan gynnwys elfennau o benderfynu ar sail disgrisiwn. Byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud ar seiliau arferol y gyfraith gyhoeddus, lle na fyddai'r ffaith bod yr Arglwydd Ganghellor yn ddiffynnydd yn yr achos yn cael ei hystyried yn berthnasol. Pe byddai penderfyniad anghyfreithlon yn cael ei wneud ar sail o'r fath, byddai'n dod yn destun adolygiad barnwrol yn y pen draw.
175. Rydym wedi ystyried yn ofalus y dadleuon y mae ymatebwyr wedi'u mynegi ynghylch y meini prawf arfaethedig ar gyfer asesu ceisiadau am dâl yn ôl disgrisiwn.
176. Rydym yn cytuno na ddylai'r rhestr o feini prawf fod yn hollgynhwysol, er mwyn gallu ystyried y gwahanol amgylchiadau lle y gall achos am adolygiad barnwrol ddod i ben cyn y cam caniatâd. Felly, wrth weithredu'r system dalu ddisgrisiynol, bydd yn ofynnol bod yr ACC yn ystyried a yw'n rhesymol talu'r darparwr, ar sail y ffactorau<sup>17</sup> sydd wedi'u nodi isod yn benodol. Wrth ystyried achosion, bydd yr ACC yn edrych ar y ffeithiau ym mhob achos. Rydym hefyd yn derbyn nifer o bwyntiau penodol y mae ymatebwyr wedi'u gwneud ynghylch y ffactorau arfaethedig. Ar ôl ystyried y rhain, rydym yn bwriadu pennu'r ffactorau<sup>18</sup> terfynol fel a ganlyn:

---

<sup>17</sup> Nododd rhai ymatebwyr y bydd y disgrisiwn wedi'i seilio ar ffactorau sydd i'w hystyried yn hytrach na meini prawf. Rydym wedi newid y geiriad yn unol â hynny.

<sup>18</sup> Ar ôl ystyried ymatebion, rydym wedi datblygu geiriad rhai o'r meini prawf (e.e. nid yw maen prawf (i) ar gostau'n cyfeirio at geisio gorchymyn costau bellach gan ein bod yn ystyried bod hynny wedi'i gynnwys yn

**i) Y rheswm na chafodd y darparwr orchymyn costau neu gytundeb (yn llawn neu'n rhannol) o blaid y parti a gafodd gymorth cyfreithiol.**

177. Yn unol â thelerau eu contract â'r Arglwydd Ganghellor, mae'n ofynnol bod darparwyr yn ymdrechu lle y bo modd i sicrhau a gweithredu ar orchymyn costau neu gytundeb costau ar gyfer eu cleient, fel y byddent wrth weithredu ar ran cleient sy'n talu'n breifat.<sup>19</sup> Felly bydd yr ACC yn craffu'n fanwl ar y rhesymau dros beidio â sicrhau costau. Yn y ddogfen ymgynghori, roedd y maen prawf hwn yn cyfeirio'n benodol hefyd at ymddygiad yr hawlydd yn y cyfnod cyn dwyn yr achos ac yn ystod yr achos. Dadleuai nifer o ymatebwyr y dylai ymddygiad y diffynnydd gael ei ystyried hefyd gan yr ACC wrth arfer y disgrisiwn. Rydym yn cytuno y dylai ymddygiad y ddau barti gael ei ystyried. Gan y byddai ymddygiad y partion yn berthnasol wrth ystyried dyfarnu neu gytuno ar gostau, rydym yn bwriadu y bydd yr ACC, wrth gymhwyso'r ffactor hwn, yn ystyried yr ymddygiad hwnnw, ond na fydd angen datgan hynny.

**ii) I ba raddau, ac am ba reswm, yr oedd y parti a dderbyniodd gymorth cyfreithiol wedi cael (neu wedi methu â chael) y rhwymedi yr oedd yn ei geisio yn yr achos.**

178. Wrth ystyried achosion ar sail y ffactor hwn, bydd yr ACC yn asesu a yw'r hawlydd wedi cael y rhwymedi yr oedd yn ei geisio ac i ba raddau. Os bydd yr achos yn dod i ben cyn y cam caniatâd a'r hawlydd wedi cael y rhwymedi yr oedd yn ei geisio'n llawn, bydd hynny'n arwydd pwysig bod yr hawliad yn un da (hyd yn oed os nad oedd modd adennill costau yn y pen draw).

179. Bydd yr ACC hefyd yn ystyried y rhesymau dros gael unrhyw rwymedi, neu fethu â'i gael. Roedd hwn yn faen prawf ar wahân yn y ddogfen ymgynghori, ac roedd nifer o ymatebwyr wedi mynegi pryderon yn ei gylch. Awgrymwyd yn benodol y byddai hyn yn amharu ar ragolygon y darparwr am dderbyn tâl mewn achosion lle'r oedd y diffynnydd yn honni am resymau tactegol nad oedd cysylltiad rhwng y canlyniad a'r hawliad. Nid hynny oedd y bwriad. Yn hytrach, gall y rheswm dros gael neu beidio â chael y rhwymedi fod yn berthnasol, er enghraifft, am fod yr hawlydd wedi cael y rhwymedi ond bod modd dangos nad oedd cysylltiad rhwng y rhwymedi a'r hawliad ac felly na ddylid talu'r darparwr.

180. Ar y llaw arall, os ceir ymyriad gan drydydd parti cyn y cam caniatâd mewn rhai achosion a bod hyn yn peri bod yr hawliad o ddiddordeb academiaidd yn unig, gall y ffactor hwn weithio o blaid y darparwr (am fod cysylltiad rhwng y rheswm dros beidio â chael y rhwymedi a'r ymyriad) o'i ystyried ochr yn ochr â'r ffactorau eraill.

**iii) Cryfder y cais pan gafodd ei wneud (ar sail y ffeithiau yr oedd y darparwr yn eu gwybod neu y byddai'n rhesymol iddo eu gwybod, a sefyllfa'r gyfraith bryd hynny).**

181. Wrth ystyried achosion ar sail y ffactor hwn, bydd yr ACC yn asesu a oedd y cais yn wirioneddol deilwng ar adeg ei wneud, ar sail y gyfraith a'r ffeithiau yr oedd y darparwr yn eu gwybod neu y byddai'n rhesymol iddo eu gwybod. Bydd y graddau y mae ffeithiau sy'n dod i'r golwg ar ôl gwneud yr hawliad yn berthnasol yn dibynnu ar resymoldeb y disgwyliad y byddai'r darparwr wedi eu canfod bryd hynny. Rydym yn

---

y rhesymau dros beidio â sicrhau gorchymyn o'r fath). Mae meini prawf (ii) a (iii) yn y ddogfen ymgynghori wedi'u cyfuno a'r cyfeiriad at unioni neu fudd wedi'i ddileu am ei fod yn ddiangen. Nid oes bwriad i newid yr ystyr wrth wneud y newidiadau hyn. Bydd yr union eiriad yn dibynnu ar y drafftio terfynol ar y rheoliadau.

<sup>19</sup> Contract Sifil Safonol 2013, paragraff 6.58.



cydnabod pryderon sydd wedi'u mynegi gan ymatebwyr ynghylch sefyllfa lle y mae gwybodaeth yn dod i'r golwg ar ôl gwneud cais a bod gwybodaeth o'r fath yn cael effaith sylweddol ar y rhagolygon am lwyddiant na fuasai'n bosibl ei rhag-weld ar adeg gwneud y cais, ac (os caiff achos ei dynnu'n ôl cyn y cam caniatâd) na ddylid gwrthod talu darparwyr mewn sefyllfa o'r fath. Felly bydd yr ACC yn ystyried a oedd y darparwr yn gwybod (neu a oedd yn rhesymol disgwyl iddo wybod) ffeithiau sy'n effeithio ar y rhagolygon am lwyddiant. Os gwelir bod ffeithiau y byddai'n rhesymol disgwyl i'r darparwr fod wedi'u canfod ar adeg gwneud y cais, ond ei fod heb wneud hynny, a bod y ffeithiau hynny'n gwanhau'r achos yn sylweddol, yna byddai hyn yn tueddu at wrthod tâl. Byddai'r ffactor hwn yn caniatáu i'r ACC ystyried amgylchiadau'r cais hwnnw, er enghraifft, a oedd gwir angen ei wneud ar fyrder.

182. Gyda golwg ar bwytiau eraill sydd wedi'u gwneud am y broses adolygu, rydym yn bwriadu cyflwyno proses adolygu mewnol yn unol â'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori. Bydd angen i ddarparwyr wneud cais am dâl i'r ACC ar sail y ffactorau, gan ddarparu tystiolaeth i ategu eu hawliad. Bydd yr hawliad yn cael ei ystyried gyntaf gan yr ACC. Os na fydd y darparwr yn fodlon ar benderfyniad yr ACC, bydd cyfle i gael adolygiad mewnol gan yr ACC. Ar ôl dilyn pob llwybr arall, bydd modd hefyd i'r darparwr herio'r penderfyniad drwy wneud hawliad am adolygiad barnwrol. Bydd y broses dalu ddisgresiynol yn digwydd ar wahân cyn yr asesiadau presennol o gostau.

#### *Effeithiau ehangach*

183. Rydym wedi ystyried y pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr yn yr Asesiad o Effaith a'r Datganiad am Gydraddoldebau.<sup>20</sup> Nid ydym yn derbyn y dadleuon ynghylch effaith gyfunol y newid hwn a'r cynnig ynghylch diffygion gweithdrefnol. Er ei bod yn bosibl y bydd y cynnig hwnnw'n galw am fwy o waith wrth baratoi i ofyn caniatâd, mae'n debygol na fydd yn berthnasol ond i nifer bach o achosion sy'n derbyn cymorth cyfreithiol lle y mae honiad am ddiffyg gweithdrefnol yn unig sail i'r hawliad. Bydd trothwy'r prawf am wrthod caniatâd mewn achos o'r fath yn parhau'n uchel, felly nid ydym yn credu bod angen eithrio achosion o'r fath.

#### *Cynigion eraill*

184. Rydym wedi ystyried y cynigion eraill sydd wedi'u hawgrymu ond nid ydym yn bwriadu gweithredu arnynt. Rydym yn derbyn y bydd rhai achosion yn dod i ben cyn gwneud penderfyniad ar ganiatâd ac, o ganlyniad, bydd disgresiwn gan yr ACC i ganiatáu talu mewn achosion teilwng. Nid ydym yn bwriadu cymhwysu'r disgresiwn at bob achos lle y mae caniatâd wedi'i wrthod gan y bydd y llys wedi penderfynu na ddylai'r achosion hynny fynd ymhellach a chredwn ei bod yn deg peidio â thalu am achosion sy'n methu â chyrraedd y trothwy hwnnw. Credwn y byddai cyfyngu'r egwyddor o barhau ag achosion ar fenter y darparwr i achosion sydd wedi'u hardystio'n rhai "hollol annheilwng" yn sicr o atal rhai achosion na ddylid eu dwyn, ond ni fydd yn gymwys i'r holl achosion gwan ac felly ni fydd o reidrwydd yn rhoi digon o gymhelliad i ddarparwyr ystyried cryfder yr hawliad cyn ei wneud.
185. Yng nghyswllt y cynnig arall sydd wedi'i awgrymu gan y Bwrdd Gweithredol Barnwrol ac eraill, credwn fod rhan bwysig i'w chwarae gan y farnwriaeth wrth chwyntu achosion annheilwng ac mae tystiolaeth o hyn yn nifer yr achosion a gafodd gymorth cyfreithiol na roddwyd caniatâd ar eu cyfer (751 yn 2012–13). Fodd bynnag, roedd

---

<sup>20</sup> Ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/judicial-review>

system debyg o ddisgresiwn barnwrol ar gael o'r blaen mewn apelau i'r uwch dribiwnlys mewnfudo a lloches lle y byddai cymorth cyfreithiol ar gyfer cais am ailystyried dyfarniad gan y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo ac ar gyfer y gwrandawriad ailystyried yn cael ei ddyfarnu ar ddiwedd y broses. Amcan y cynllun oedd lleihau nifer yr heriau gwan i benderfyniadau gan y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo a oedd yn cyrraedd y Llys Gweinyddol. Fodd bynnag, roedd gorchmynion costau'n cael eu gwneud fel mater o arfer bron ac felly nid oedd y cynllun yn trosglwyddo unrhyw risg ariannol i'r darparwr. Felly nid ydym yn bwriadu cyflwyno cynllun tebyg yn y cyd-destun hwn gan nad ydym wedi ein darbwylo y byddai'n cyflawni'r amcan arfaethedig.

## Casgliad

186. Mae'r Llywodraeth yn credu o hyd fod rhaid i'r adnoddau cyfyngedig ar gyfer cymorth cyfreithiol gael eu targedu'n briodol ar yr achosion adolygiad barnwrol hynny lle y mae'r angen mwyaf amdanynt, er mwyn sicrhau bod y system cymorth cyfreithiol yn cadw hygredd ac ymddiriedaeth y cyhoedd. O dan ein cynigion byddai'r darparwr yn parhau i gael ei dalu am waith ar achosion teilwng drwy un o dri llwybr: i) rhoi caniatâd yn yr achos (fel y bydd yn sicr o gael tâl ar gyfraddau cymorth cyfreithiol neu gyfraddau *inter partes*); ii) os na fydd yr achos yn cyrraedd cam y penderfyniad ar ganiatâd, cytunir ar gostau o dan y setliad neu drwy orchymyn costau; iii) os na ellir adennill costau mewn achos o'r fath, er enghraifft, am fod setliad sydd yn amlwg er lles pennaf y cleient yn cael ei gynnig ar yr amod na thelir costau, ond bod yr achos yn deilwng, yna bydd y darparwr yn gallu cael tâl ar gyfraddau cymorth cyfreithiol yn ôl disgresiwn yr ACC.
187. Rydym yn credu y bydd hyn ynghyd â'r addasu yn y ffactorau sydd o dan ddisgresiwn yr ACC yn sicrhau y rhoddir tâl o hyd am waith achosion teilwng cyn cael caniatâd.

## Atodiad C: Rhestr o ymatebwyr

2. Adam Tear
3. Tim Earl
4. Nicholas Dove
5. William Hicks
6. Dienw 1
7. Dienw 2
8. Simon Read
9. Ariel Sharon
10. Elizabeth Harris
11. Peter John Hirst
12. David Radlett
13. Dienw 3
14. David Graham
15. Paul Stockton
16. Sue Otty
17. Ms Rebecca Scott
18. Michael Robinson
19. Ymgyrch Heddwch Parliament Square
20. Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Llundain
21. Eric White
22. Joseph Markus
23. Community Law Partnership
24. Mr a Mrs A. Andrew
25. Cyngor Dosbarth Fforest y Ddena
26. Cymdeithas Landlordiaid Preswyl
27. Cymorth i Fenywod
28. Linkage Community Trust
29. Cymdeithas Cyfreithwyr Dinas Llundain – Pwyllgor Ymglyfreitha
30. Julia Buckingham
31. Leigh Day
32. Cyngor Bwrdeistref Gravesham
33. Gender Identity Research and Education Society (GIRES)
34. Tim Padmore
35. Ymgynghoriaeth Gynllunio Heine
36. Coalition for Access to Justice in the Environment
37. Dr John McGarry
38. Accessible Retail
39. Canolfan Cyngor ar Bopeth Sutton
40. Cyfreithwyr Cymorth Cyfreithiol Ifanc
41. Refugee Action
42. Lesbian and Gay Foundation
43. Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai
44. Partneriaeth John Lewis
45. Yr Athro Richard Macrory
46. Rights Watch UK
47. Cyngor Bwrdeistref Bedford
48. Bwrdeistref Llundain Hammersmith a Fulham

49. Cenhadaeth a Chyngor Materion Cyhoeddus Cyngor yr Archesgobion, Eglwys Loegr
50. Ruston Planning Cyfyngedig
51. Maggie Smith Bendell
52. Richard Harwood QC
53. Cymdeithas Cyfraith Cynllunio a'r Amgylchedd y Bar
54. Jeremy Baker
55. Compassion in World Farming
56. Cymdeithas Cyfraith Gyfansoddiadol a Gweinyddol y Bar
57. Sandra San Vicente
58. Bannister & Co
59. Nicola Daniel
60. Llywodraeth Cymru
61. Resolution
62. Cymdeithas Sefydliadau Elusenol
63. National Association for Voluntary and Community Action
64. UKWIN
65. Bwrdeistref Llundain Hillingdon
66. Alex Offer
67. Amnest Rhyngwladol
68. Rob Goldspink
69. Inclusion London
70. Cymdeithas y Cerddwyr
71. Amicus Law
72. British Union for the Abolition of Vivisection
73. Gordon Wignall
74. Unicef UK
75. Taylor Wimpey UK Cyfyngedig
76. Consortiwm Hawliau Dynol, Ysgol Uwch-Astudiaethau, Prifysgol Llundain
77. TV Edwards LLP – Adran Lles Cymdeithasol/Cyfraith Gyhoeddus
78. National Aids Trust
79. Asda
80. Swyddfa'r Cyfreithiwr Swyddogol
81. Sefydliad Prydeinig y Galon
82. Reprieve
83. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
84. Medical Justice
85. Cymdeithas Gweithredwyr Meysydd Awyr
86. Bates Wells Braithwaite
87. Amanda Ford
88. Yr Athro Colin T Reid
89. Dan Rosenberg
90. Irwin Mitchell
91. Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol
92. John Whittle Robinson Solicitors
93. Coram Voice
94. Intervene
95. Wildlife and Countryside Link
96. Hodge, Jones and Allen LLP
97. Cyngor Cyfiawnder Sifil
98. Rights of Women
99. UK Association of Gypsy Women
100. Office of the City Rembrancer

101. Rhwydwaith Canolfannau Cyfraith
102. Sefydliad Cymru'r Gyfraith
103. Shelter
104. Shelter Cymru
105. Garden Court Chambers – Tîm Achosion Teuluol
106. Cymdeithas Cyfreithwyr Lles Anifeiliaid
107. George Bartlett QC
108. Sense
109. Cyngor ar Bopeth
110. Panel ar Annibyniaeth y Sector Gwirfoddol
111. Daniel Sternberg
112. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
113. Bwrdeistref Llundain Richmond
114. Bhatia Best
115. Swain & Co LLP
116. René Cassin
117. Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
118. St John's Chambers
119. Jenny Mansell
120. Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo
121. Buglife
122. Prosiectau Apelau Cymorth Lloches
123. Cylchdaith De-ddwyrain Lloegr
124. The Constitution Society
125. Jerry Perlmán
126. Save Babies Through Screening
127. Action against Medical Accidents
128. Police Action Lawyers Group
129. John Gorringer
130. Kimberley Asbury
131. Transport for London
132. Prachi Kanse
133. Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
134. Michael Sherlock
135. Maxwell Gillot
136. Osbornes Solicitors LLP
137. Cymdeithas Genedlaethol Cyfiawnder Ieuencid
138. Yr Athro Maurice Sunkin a Varda Bondy
139. Unison
140. Bingham Centre for the Rule of Law
141. Cymdeithas Barnwyr Cymru
142. Shazina Hussain
143. Compact Voice
144. Yr Arglwydd Brif Ustus, Meistr y Rholiau, Llywydd Adran Mainc y Frenhines, Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, a'r Arglwydd Ustus Richards (Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil)
145. Cymdeithas y Cyfreithwyr
146. Oliver Studdert
147. Islington Law Centre/The Migrants' Law Project
148. Which?
149. The Aire Centre
150. Fisher Meredith LLP
151. Southall Black Sisters

152. The Christian Institute
153. Low Incomes Tax Reform Group
154. Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Corfforol
155. Liberty
156. Sefydliad Siartredig Trethiant
157. Jonathan Reeve
158. Miles and Partners LLP
159. Cymdeithas Technegwyr Trethiant
160. Pwyllgor y Bargyfreithwyr Ifanc
161. Doughty Street Chambers – Tîm Cyfraith Gyhoeddus
162. Tesco
163. EDF Energy
164. Karen May
165. PCS Union
166. Thompsons Solicitors
167. Keeley Creedy
168. Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol
169. Ymgyrch Nychdod Cyhyrol
170. Women's Resource Centre
171. Leeds Gate
172. Ffederasiwn Eiddo Prydain
173. RenewableUK
174. The Open Spaces Society
175. Y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus
176. Cyngres yr Undebau Llafur
177. Herbert Smith Freehills LLP
178. Murdoch Planning
179. Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint
180. Garden Court North Chambers
181. ACEVO
182. Cyngor y Bar
183. Sefydliad Sheila McKechnie
184. RWE Npower ccc
185. Grŵp Ymfudo a Lloches De Swydd Efrog
186. Kate Stone
187. SouthWest Law
188. Guildhall Chambers
189. Campaign for Better Transport
190. Howard League for Penal Reform
191. Matrix Chambers
192. Canolfan Cyfraith Southwark
193. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
194. Cymdeithas Ymgyfreitha Cyfreithwyr Llundain
195. Garden Court Chambers – Tîm Achosion Sifil
196. Mackintosh Law
197. JustRights
198. Camille Warren
199. Cyngor Plwyf West Malling
200. Justice
201. Cymdeithas y Plant
202. Cymdeithas Cyfreithwyr Dinas Llundain – Pwyllgor Cyfraith Cynllunio a'r Amgylchedd
203. London First

204. British Institute of Human Rights
205. Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
206. Maer Llundain
207. Cymdeithas Cyfreithwyr Carchardai
208. Deighton Pierce Glynn
209. Construction Products Association
210. Clifford Chance, DLA Piper, Freshfields Bruckhaus Deringer, Simmons & Simmons, Weil, Gotshal & Manges
211. Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Sipsiwn, Teithwyr a Roma
212. Client Earth
213. Brian Thompson
214. Mind
215. Peter Blair QC
216. Baker & McKenzie
217. NCVO
218. Affinity
219. Gwasanaeth Cyngori Carcharorion
220. Garden Court Chambers – Tîm Achosion Tai
221. Victoria Pogge von Strandmann
222. Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
223. Hausfield & Co
224. Energy UK
225. Haldane Society of Socialist Lawyers
226. Coram Children's Legal Centre
227. Cymdeithas Cyfraith Gwahaniaethu
228. Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
229. The Corner House
230. Y Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr
231. Bindmans LLP
232. Birnberg Pierce
233. Terence Ewing
234. Turpin & Miller LLP
235. Grŵp Ymchwil Cyfraith Gyhoeddus Prifysgol Bangor
236. Vijay Jagadeshram
237. Cyfreithwyr Cyfraith Gyhoeddus
238. Emma Montlake
239. Ymddiriedolaeth Barrow Cadbury
240. James Stark
241. 11 King's Bench Walk
242. Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Troseddol Llundain
243. Christian Khan
244. Ymarferwyr Cyfraith Addysg
245. Nick Bano
246. Cymdeithas Cyfraith Addysg
247. Bailey Nicholson Grayson
248. Steve Symonds
249. Allen & Overy LLP
250. Harriet Samuels
251. Cymdeithas Cyfreithwyr Plant
252. Jeffery Matthews
253. Catherine Meredith
254. Geldards LLP
255. Race on the Agenda

256. Kent Critical Law Society
257. Wragge & Co LLP
258. Y Groes Goch Brydeinig
259. David Cotterell
260. Y Gwir Anrhydeddus Syr Henry Brooke
261. Nick Hubbard
262. Cymdeithas Cyfraith Gyfansoddiadol a Gweinyddol y Bar (ALBA)
263. Denise McDowell
264. Julian Coningham
265. Robert King
266. Paul Bowen QC
267. Dienw 4
268. Nicholas Sagovsky
269. Jerome Phelps
270. Dr Keith Lomax
271. Dr Gitanjali N Gill
272. Dienw 5
273. Dienw 6
274. Rhiannon Jones
275. Jonathan Cousins
276. Ian Wise QC
277. Adam Straw
278. Louise Streeter
279. Azeem Suterwalla
280. David Duckitt
281. David Wolfe QC
282. Helen Gill
283. Sam Jacobs
284. Katie Brown
285. Shauneen Lambe
286. Deena Blacking
287. Alex Durance
288. Meyric Lewis
289. Rachel Jones
290. Dr Adeline Trude
291. Richard Blyth
292. Diane Astin
293. Alexander dos Santos
294. Richard James Wood
295. Christopher Whitmey
296. John Ford
297. Mark Mathews
298. Stephen Clear
299. Jane Young
300. P. Carder
301. Yr Arglwydd Neuberger, Llywydd y Goruchaf Lys
302. Edward Kirton-Darling
303. Liz Hinks
304. Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Trosedd
305. Dentons
306. Cyngor Dosbarth Tendring
307. Richard Buxton
308. Cyngor Canolfannau Siopa Prydain



309. Cyngor Dinas Hull
310. Bhatt Murphy
311. Scottish Power
312. Kerry Barker
313. Graham Phillips
314. Rhwydwaith Ffoaduriaid yr Eglwysi
315. Tom Pollard
316. Cymdeithas Cyfraith Trosedd y Bar
317. Stephensons LLP
318. Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall
319. Nicola Gibson & Giulio Oliviero
320. Jennifer Hilliard
321. Uned Atal Masnachu mewn Pobl a Chamelwa ar Lafur
322. Amnesty International UK
323. Vera Baird QC, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Northumbria
324. Favell Smith and Lawson
325. Steve Webb AS







Cyhoeddwyd gan y TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael oddi wrth:

**Ar-lein**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Drwy'r post, dros y ffôn, ffacs ac e-bost**

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn / ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522

Gellir archebu drwy ffonio'r Llinell Cost Isel Seneddol ar 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siop y Senedd**

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn / ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: [shop@parliament.uk](mailto:shop@parliament.uk)

Rhyngwyd: <http://www.shop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-188112-8



9 780101 881128